

ECO'R WYDDFA

RHIF 376

EBRILL 2010

PRIS 50c

Yn y rhifyn hwn:

- Torgochiaid i Lyn Llydaw?
- Coelcerth i geffyl
- Bws Eryri am bunt
- Twnel Gwiall Waunfawr

UNAWDWYR GORAU CYMRU

Ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Cymru yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe yn ystod y mis daeth dau o hogia'r fro i'r brig, gan gipio gwobrau unawdwyr gorau'r gystadleuaeth, a hynny i ddau fand gwahanol - un o'r de a'r llall o'r gogledd.



Dewi Griffith – Band Tredegar

Mae Dewi Griffith o Fethel yn hen law ym myd y bandiau pres bellach, er mai ifanc ydyw o ran oedran. Dechreuodd ei yrfa gyda Band Llanrug a Band Ieuenctid Gwynedd, ond mae erbyn hyn yn byw yn y de ac yn chwarae cornet i Fand Tredegar.

Yn yr adran gyntaf o'r bencampwriaeth, roedd Band Tredegar yn wynebu eu hen elynion, Band Cory, a pherfformiad Dewi fel unawdydd wnaeth yn sicr mai Tredegar acth â hi y tro hwn.

Yn ail adran y bandiau pres perfformiodd Band Deiniolen yn arbennig o dda i ddod yn ail allan o ddeuddeg band. Daniel Taylor, eu chwaraewr iwffoniwm gipiodd wobr y prif unawdydd. Un ar bymtheg oed yn unig yw Daniel, a rhagwelir dyfodol disglair iddo ym myd y bandiau.

O ganlyniad i ddod yn ail yn y gystadleuaeth, mae Deiniolen, dan arweiniad eu cyfarwyddwr cerdd, Gavin Saynor, wedi eu gwahodd i gynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Prydain yn Harrogate, fis Medi. Dyma'r trydydd tro o fewn y chwe mlynedd diwethaf iddynt ennill y fraint hon.

Ond bu bron iddynt fethu

cyrraedd Abertawe, wedi i'w bws dorri i lawr ddwywaith ar y ffordd, ac iddynt gofrestru i'r gystadleuaeth cfo dim ond pum munud i'w sbario! Bydd rhaid cychwyn yn gynt am Harrogate! Roedd y beirniad yn Abertawe, Malcolm Brownbill yn hael ei ganmoliaeth, gan ddisgrifio perfformiad Deiniolen o "Kingdom of Dragons" fel un "mawreddog a llawn manylder, gyda chyfraniadau ensemble ac unigol rhagorol." Roedd ganddo ganmoliaeth uchel hefyd i adran yr offerynnau taro.

Yn yr un gystadleuaeth roedd Band Llanrug, a ddaeth yn bedwerydd. Canmolwyd eu perfformiad hwythau hefyd, a dywedodd y beirniad fod y pedwar cyntaf yn y gystadleuaeth gryn dipyn ar y blaen i'r gweddill.

Gallwn ymfalchio felly fod y traddodiad bandiau pres yn fyw ac yn iach yn y fro, a hynny mewn cyfnod pan welwyd dirywiad sylweddol yn nifer y bandiau pres ym Mhrydain. Mae'n glod i'r ardal fod gennym ddau o fandiau pres arbennig, a'u bod yn gyfrwng i feithrin



Daniel Taylor – Band Deiniolen

doniau unigolion a gipiodd brif wobrau Pencampwriaeth Cymru eleni.

Ar nos Sadwrn, 24ain o Ebrill bydd Band Deiniolen yn rhannu llwyfan Neuadd PJ Bangor gyda Bandiau Biwmares a Phorthaethwy fel rhan o gyfres o gyngherddau a drefnir gan y Brifysgol. Am fwy o fanylion ac i archebu tocynnau, cysylltwch â Meirion Jones (01286 870452).



Band Deiniolen

ECO'R WYDDFA

RHIF 376

EBRILL 2010

Argraffwyd gan Wasg Dwyfor
Penygroes 01286 881911

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Erthyglau a newyddion
at ohebwyr pentref neu i**

Penarth
Ffordd yr Orsaf
LLANRUG LL55 4BA

Straeon ac erthyglau ar e-bost i
alwenaowen@gmail.com
neu Tir Iarll, Llandwrog LL54 5TE
neu storiau@ecorwyddfa.co.uk

CADEIRYDD

Y PWYLLGOR GWAITH
Geraint Elis

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard L. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt,
Llanberis (870740)
eifionroberts132@btinternet.com

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD BWNDELU

Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir,
Dinorwig (870292)

GOHEBWYR PENTREFI

DEINIOLLEN: Nia Gruffudd (872133)

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Sŵn-y-Gwynt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Deunydd i law'r

golygyddion perthnasol

NOS SUL 18 EBRILLH

Os gwelwch yn dda

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg

NOS IAU 29 EBRILL

Dyddiad Gosod

NOS SUL 25 EBRILL

Safeddiad Coffa Llanrug

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Gosod	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Mai	Sul 18 Ebrill	Sul 25 Ebrill	Iau 29 Ebrill	Deiniolen	W. O. Roberts	

Llythyr

ATGOFION O'R NANT

Annwyl Olygydd,
Fy enw i ydi Catherine Tudor Jones, ac rwyf newydd gychwyn fel Swyddog Treftadaeth yn Nant Gwrtheyrn. Dyma gyfnod cyffrous iawn yn hanes y Nant, ac i unrhyw un ohonoch sydd wedi mentro i lawr i'r dyffryn yn ddiweddar, mi fyddwch wedi gweld bod llawer iawn o ddatblygiadau ar y gweill.

Tybed allwn ni apelio at eich darllenwyr am gymorth?

Fy swyddogaeth fydd i feithrin perthynas glôs rhwng y Nant a'r gymuned leol. Mae ymwelwyr yn gwirioni wrth fynd i lawr y ffordd droellog a chael blas ar hanes a threftadaeth yr ardal ond rydym yn gobeithio y bydd trigolion Gwynedd hefyd yn teimlo eu bod nhw'n elwa o'r hyn sy'n cael ei gynnal yn y Nant. O ganlyniad, byddaf yn cysylltu â chymdeithasau niferus yr ardal o fewn y misoedd nesaf er mwyn clywed eich sylwadau ynglŷn â gwreiddu'r cynllun yma.

Hoffwn glywed gan unrhyw rai ohonoch sydd wedi tyfu i fyny, ynteu yn Nant Gwrtheyrn neu'r ardal gyfagos, ac sy'n barod i rannu'ch atgofion difyr â ni. Y gobaith yw y bydd cofnodi'r hanesion hyn yn cyfoethogi ein dealltwriaeth o fywyd yn y Nant ac yn ein cynorthwyo i greu darlun realistig o fywyd y chwarelwyr a'u teuluoedd ar droad yr Ugeinfed ganrif ac wedi hynny. Felly, os oes gennych atgofion o'r Nant neu os ydych chi'n

cofio straeon oedd yn cael eu hadrodd ar eich aelwyd am fywyd yn y Nant gan aelodau o'ch teuluoedd, cysylltwch â mi ar 01758 750 334 neu Catherine@nantgwrtheyrn.org

Gan edrych ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir,

CATHERINE TUDOR JONES
Catherine@nantgwrtheyrn.org
01758 750 334

ADRIDDAD CÔR MEIBION DINAS BANGOR

Ar ddechrau Mawrth cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Côr Yn ystod y cyfarfod cafwyd adroddiadau oddi wrth y Cadeirydd, yr Ysgrifennydd, yr Arweinydd a'r Trysorydd.

Cafwyd blwyddyn lwyddiannus unwaith eto gyda nifer o gyngherddau, yn enwedig yn Eglwys Sant Ioan yn Llandudno. Diolchwyd i'r Arweinydd, James Griffiths; y Cyfeilydd, Lowri Roberts Williams ar Dirprwy Arweinydd, Gwilym Lewis. Hefyd talwyd diolchiadau i'r unawdwyr.

Etholwyd y swyddogion canlynol am y flwyddyn: Llywydd: Mr Cledwyn Jones, Cadeirydd: Mr Gwyn Hefin Jones, Is-Gadeirydd: Mr Dafydd Ellis, Ysgrifennydd: Mr Myfyr Parry, Trysorydd: Mr Hugh Harry Williams.

Yn ddiweddar croesawyd dau aelod newydd i'r Côr. Cynhelir ymarfer bob nos Fercher yn Ysgol y Faenol o 7.30pm tan 9.30pm ac mae croeso mawr i ymwelwyr ac, wrth gwrs, i ddarpar aelodau newydd.

Y mae nifer o gyngherddau

eisoes wedi cael eu trefnu ac mae trefniadau ar y gweill i ymweld ag Awstria y flwyddyn nesaf.

DIOLCH

MUNRO. Dymuna William, James, Helen a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen-nain arbennig. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau i'r tŷ a'r rhoddion hael tuag at Tŷ Gobaith a Meddygfa Llanrug. Diolch i Dr Eysyllt Llwyd a Staff Meddygfa Llanrug am eu gofal. Diolch i'r Parchedigion Lloyd Jones, Robert Townsend a Gwynfor Williams am eu gwasanaeth ac i'r organydd, Michael Davies. Diolch arbennig i Katie ac Eilwen ac i Dylan Griffith, Cyfarwyddwr Angladdau, am ei gymorth a'i drefniadau trylwyr. Diolch bawb.

RHODDION

£30: Er cof am Appy Jones a'i gŵr, Nowi, Maes Llwyn, Llanberis.

£20: Nansi Jones, Meillionnydd, Penisarwaun er cof annwyl am Marian Wyn Jones Dolerddi Waunfawr. Teulu y ddiweddar Mrs Helena Munro, Llanrug; Teulu y ddiweddar Marian, a'r diweddar John Andro, Bryn Awelon, Rhiwen, Deiniolen; Teulu y ddiweddar Laura Marne Pritchard, gynt o 32 Rhydfadog, Deiniolen.

£10: Teulu'r ddiweddar Elizabeth Glenda (Foulkes), Llanberis; Nellie Pritchard, 3 Ffordd Padarn, Llanberis; Jean Roberts, 5 Dôl Eilian, Llanberis; Selwyn a Myra Griffith, Penisarwaun; Mrs Beryl Gruiffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen.

£5: Haf Thomas, Buarthau, Llanrug; Ted Morris, 16 Maes Padarn Llanberis; Mair Roberts, Oak View, Warden Street, Llanberis; Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, Brynrefail.

£1.50: Y Parch a Mrs R. E. Hughes, Nefyn.

CYFADRAN DATBLYGU - GWASANAETHAU YSGOLION YSGOLION UWCHRAD

YSGOL BRYNREFAIL, LLANRUG

(Ysgol Gyfun 11 - 18 oed, 742 o ddisgyblion)
AROLYGWYR ARHOLIADAU ALLANOL
RHAN AMSER - ACHLYSUROL

Amser - mor fuan â phosib • Cyflog - £10:00 yr awr
Mae'r newidiadau mewn amodau gwaith athrawon yn gofyn ar i ysgolion benodi arolygwyr allanol ar gyfer arholiadau allanol a ffug arholiadau mewnol. Bydd y rhai fydd yn cael eu penodi yn cael eu defnyddio yn bennaf yn ystod cyfnodau arholiadau allanol misoedd Ionawr, Mai a Mehefin a/neu yn ystod cyfnodau arholiadau ffug Blwyddyn 11 ym mis Rhagfyr. Bydd yn bosib i'r oriau fod yn hyblyg oddi fewn i amserlen yr arholiadau a bydd hyfforddiant priodol ar gael.

Manylion pellach i'w cael gan Mr. Kevin Wyn Owen, Swyddog Gweinyddol, Ysgol Brynrefail, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4AD. Rhif Ffôn: 01286 672381

E-bost: sg@brynrefail.gwynedd.sch.uk

Ceisiadau drwy lythyr neu e-bost i Mr. Kevin Wyn Owen.
Dyddiad Cau : Dydd Mercher 22ain Ebrill 2010

TRADDODIAD MAGU CEFFYLAU GWEDD YN PARHAU

Dyma stalwyn llwyddiannus arall o Tros y Waen, Penisarwaun. Cafodd drydydd yn ei ddosbarth (4 mlwydd) yn sioe Genedlaethol Ceffylau Gwedd yn Peterborough. Hon yw 'Crufts' y ceffylau gwedd a mawr ydi'r anrhydedd i Rhys Griffiths am baratoi Hill Lodge Linton a'i arddangos mor llwyddiannus.

Cafwyd llwyddiant ychwanegol gydag ebol dyflwydd, sef Trem y Wyddfa Richard. Daeth yn gyntaf yn ei ddosbarth ac yn is-bencampwr

yr holl sioe.

Gan fod ei waed yn rhy agos i weddill ceffylau Tros y Waen, rhaid oedd gwerthu'r pencampwr ifanc hwn.

Braf yw gweld fod yr hen draddodiad o fagu ceffylau gwedd yn parhau ym Mhenisarwaun a gychwynnwyd gyda William Hugh, Llys. Trosglwyddwyd yr awenau'n llwyddiannus iawn i'w fab Dylan. Bellach Rhys ac Elliw, plant Dylan, sydd yn arwain a thywys dan oruchwyliaeth ofalus eu taid a'u tad.



Eira 2010

Roedd gwerin Dyffryn Peris 'slawer dydd yn rhoi coel ar ymddangosiad Llanc Llandudno'n 'Agor y fflodiat' er budd o gynddaredd eigion brochus a'i wanc. Ai llifogydd llynnoedd i lwnc y bae, wedyn – fel concord â'r Forfran ddu ar hyd Afon Seiont am sigl a swac tawelach fôr – i bysgota yn hy...

Bu'r cyndeidiau yn graff – enwasant graig yn Llyn Padarn yn Llech-y-Fulfran – hen loches cynoesol i ddowciwr o'r aig; mae yma o hyd, ger glan lein y trên...

'Gull Island' y Sais – Craig Wylan y fro; diflannodd craffter henafiaid o'r co.

TROED NODYN: *Mulfran – Cormorant a Bili-Dowcar, Morfran, Colier, Wil Wal Walog, Llanc Llandudno, Gloddestwr a Wili Bofran.*

NORMAN CLOSS, (Fach Wen)

BWS ERYRI AM BUNT

O 28 Mawrth 2010 gallwch deithio ar fysys Sherpa am £1 yn unig fesul siwrne.

Mac'r gwasanaeth bws Sherpa yn teithio ar hyd gogledd Eryri gan gysylltu gyda llwybrau cerdded, atyniadau gwyliau, mynyddoedd a lleoliadau o harddwch arbennig.

Peidiwch â phoeni am y car, defnyddiwch drafnidiaeth gyhoeddus er mwyn cyrraedd llwybrau godidog Eryri ac atyniadau eraill. Dim ond £1 fydd pob siwrne ar daith S1, S2 ac S6 yn ei gostio fel rhan o gynllun Goriad Gwyrdd Eryri.

Mae Cynllun Goriad Gwyrdd Eryri yn bartneriaeth rhwng Cyngor Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Croeso Cymru a'r Adran Menter, Arloesi a Rhwydweithiau sy'n canolbwyntio ar rwydweithiau cludiant cynaliadwy ym Mharc Cenedlaethol Eryri.

CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR



Plaid

HYWEL WILLIAMS

Eich Aelod Seneddol ers 2001

Ymgeisydd Plaid Cymru yn
Etholiad Cyffredinol 2010

LLAIS CRYF PROFIADOL I ETHOLAETH ARFON

www.hywelwilliams.plaidcymru.org

hywel.williams@plaidcymru.org

01286 672510

CHWILOTA

BRYTHONIAID Y GRAIG



Beth amser yn ôl cafwyd hanes catrawd o chwarelwyr ithfaen a llechi o ogledd Cymru a gasglwyd at ei gilydd gan Cynol Darbishire o Benmaenmawr ac a fu'n ymladd yn Ffrainc yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf. Yn ddiweddar, cefais fenthyg dogfennau a lluniau gan Mrs Norah O'Brien, Penrhosgarnedd (Norah Munro o Benisarwaen gynt). Mae sôn yn ei chasgliad am sefydlu cymdeithas Gymraeg yn Gibraltar yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Cynhaliwyd Cinio Gŵyl Ddewi yn y Garrison Recreation Rooms yno ar Fawrth 1af 1942, ac o ganlyniad i'r cinio hwnnw y sefydlwyd Cymdeithas Brythoniaid y Graig. Roeddent yn cyfarfod ar y cychwyn mewn lle o'r enw 'Welcome' ar Main Street, a hynny bob yn ail nos Sul. Yna, yn dilyn dathlu Gŵyl Ddewi 1943, cafodd y Gymdeithas adeilad yn 64 Engineers Lane - enw addas iawn - a sefydlwyd aelwyd barhaol yno gyda lle i gyfarfod bob nos o'r wythnos.

Ond pam fod cymaint o Gymry yn Gibraltar yn ystod yr Ail Ryfel Byd? Unwaith eto, catrawd o chwarelwyr oedd hon wedi ei chomisiynu'n arbennig fel adran o'r Royal Engineers oherwydd eu profiad. Eu gwaith oedd ffrwydro a thyllu degau o filoedd o dunelli o garreg allan o grombil Craig Gibraltar er mwyn ehangu'r gwagle yno i gadw anghenion rhyfel, gan fod Gibraltar yn safle pwysig iawn wrth fynedfa i Fôr y Canoldir. Roedd yr holl wastraff a gai ei dyllu allan o grombil y Graig yn cael ei ddefnyddio i ehangu'r maes awyr a'i ymestyn allan i'r môr er mwyn ei gwneud yn ddiogelach i awyrennau mawr laniau a hedfan oddi yno.


Dichon felly mai milwyr Cymraeg eu hiaith o'r ardaloedd

chwarelyddol oedd y mwyafrif, os nad y cyfan o'r rhai oedd yn gweithio yno. Does ryfedd felly iddynt sefydlu eu cymdeithas Gymraeg eu hunain, ac yr oedd canu yn rhan bwysig o'u hamser hamdden. Cyhoeddwyd gan y Gymdeithas lyfryn bychan o emynau oedd yn boblogaidd yng ngwahanol Gymanfaoedd Canu Cymru yn y cyfnod. Y gŵr fu'n gyfrifol am hyn oedd rhyw Mr Morris, cyn-organydd Eglwys Plwyf Maentwrog yn y blynyddoedd cyn y rhyfel. Gofynnodd i'r chwarelwyr anfon gartref am daflenni cymanfaoedd gwahanol enwadau, ac yna eu gosod gyda'i gilydd yn llyfryn. Mae'n sicr fod sawl hawlfraint wedi ei thorri wrth wneud hyn, ond ceir nodyn ar glawr y gyfrol yn apelio am faddeuant: 'os troseddwyd wrth argraffu unpeth heb gamiatad, erfyniwn am faddeuant. Printiwyd y llyfryn hwn yn breifat, ac fe'i lledaenir ym mysg aelodau'r Gymdeithas yn unig.'

Tybed faint o chwarelwyr bro'r 'Eco' fu'n aelodau o Frythoniaid y Graig, ac a oes rhai ohonynt yn fodlon rhannu peth o'u hatgofion am y cyfnod hwnnw. Yn sicr, buont yn allweddol yn natblygiad diweddar Gibraltar, a chafwyd canmoliaeth uchel i'w gwaith tra buont yno.

Siop 'Teulu Henlôn'

Anfonwyd cais am wybodaeth gan Kelvin Jones, Betws y Coed ynglŷn â'r siop a ddangosir yn y llun. Fe'i hadeiladwyd ar gyfer Mary Jones, chwaer i'w daid, Thomas David Jones. Roedd y siop, yn ôl pob tebyg, wedi ei hadeiladu'n arbennig ar gyfer Mary Jones oherwydd fod rhyw nam difrifol ar ei choesau. Roedd y siop wedi ei lleoli dros y ffordd i Vaynol Terrace, Deiniolen.



Rhaglen Brythoniaid y Graig

Mae Mary Jones yn sefyll yn nrrws y siop, a chredir mai dwy o chwiorydd tad Kelvin Jones sydd yn y llun gyda hi. Roedd y teulu'n cael eu hadnabod fel 'teulu Henlôn' oherwydd mai yno roedd y cartref gwreiddiol. Byddai Kelvin yn falch o dderbyn unrhyw wybodaeth am Mary Jones neu atgofion pobl am y siop.

Ffatri Crochenwaith Pontrug
Rai misoedd yn ôl bellach, cyhoeddwyd llun o grochenwaith y tu allan i'r hen Felin Wen ym Mhontrug (ble mae tŷ bwyta Sopna heddiw). Prin oedd y wybodaeth am y gwaith, ac ychydig iawn o bobl a gysylltodd â mi gyda hanes y lle. Mae'n ymddangos i'r gwaith gael ei gynnal yno am rai



Siop Teulu Henlôn

Caffi Caban

ar Agor

9 y bore tan 4 y pŵn - 7 diwrnod yr wythnos

Cwmni cydweithredol di-elw yw Caban Cyf. wedi ei sefydlu i hwyluso datblygiad economaidd cefn gwlad.

Nod Caban Cyf. yw rheoli gweithrediad cynaliadwy sydd yn cynhyrchu incwm drwy ei brif weithgareddau refeniw (Caffi Trwyddedig, Ystafell Cynhadledd a Gwasanaeth Argraffu a Llundropio) ac ar yr un pryd i gefnogi busnes lleol (Unedau Busnes Caban) er mwyn creu cyfleoedd gwaith.

Caban, Yr Hen Ysgol, Brynrefail
www.caban-cyf.org caban@caban-cyf.org
01286 685 500 (caffi) 01286 685 462 (swyddfa)

Caban

Dylan Griffith

Trefnwr Angladdau Annibynnol a Lleol

TROS-Y-WAEN PENISARWAUN

Gwaith Cerrig Beddi
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu'r Holl Ardal

Ffoniwch DYLAN ar 01286 871833 (SYMUDOL- 07778127394)

Hefyd



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA
Cythaeddwrch Mewn Steil Mewn Cerbyd *Rolls Royce*
AR GYFER PRIODASAU, PENBLWYDD ac ACHLYSURON ARBENNIG ERAILL

blynyddoedd yn nechrau'r 1950'au.

Yn ddiweddar deuthum ar draws cofnod yn yr *Herald Cymraeg* ym mis Ionawr 1947 yn sôn am 'ddiwydiant newydd' yn cael ei sefydlu ym Mhontrug, sef gwaith crochenwaith. Roedd cwmni ym mherchnogaeth y Baroness Bower o Maine wedi prynu'r hen felin ac yn bwriadu cynhyrchu crochenwaith ar gyfer y tŷ, gan gynnwys potiau llaeth. Methais hyd yma a darganfod unrhyw wybodaeth am y Baroness, ond mae'n amlwg na fu'r fenter yn llwyddiant.

Yr hyn sy'n ddiddorol yw fod crybwyll wedi ei wneud hefyd o ffatri crochenwaith cyffelyb wedi ei sefydlu ym Mhontrug yn fuan ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, ond na fu fawr o lwyddiant ar hwnnw chwaith. Tybed ai yn y Felin Wen y bu'r fenter aflwyddiannus honno hefyd?

Tafarndai'r Fro

Yn ôl pob sôn, capeli a thafarndai yw'r ddau fath o sefydliad sy'n dirywio gyflymaf yng Nghymru heddiw. Mae sawl capel yn y fro wedi ei gau ac amryw wedi eu dymchwel, ond o leiaf mae cofnodion ysgrifenedig pur drwyadl amdanynt. Nid felly yn achos y tafarndai. Byddai'n ddiddorol casglu rhestr o'r holl tafarndai a fu'n bodoli yn y fro yn y gorffennol, cyn i'r cof amdanynt ddarfod a bod.

Yr hyn a ddaliodd fy sylw yn ddiweddar oedd cofnodi dwy apêl ynglŷn â thafarnau'r Cross Keys yng Nghaeathro a'r Commercial Inn ym Mhenisarwaen. Y dyddiad oedd 1892, ac yr oedd yr Ustusiaid yng Nghaernarfon wedi gwrthod adnewyddu trwydded i'r ddwy dafarn. Y cofnod a welais i oedd apêl y ddau dafarnwr yn erbyn y penderfyniad. Yn anffodus, doedd canlyniad yr apêl ddim ar gael 'chwaith. Bydd yn rhaid

pori trwy rifynnau papurau newydd y cyfnod i ddarganfod y canlyniad. Tybed ai dyma'r pryd y cawyd y ddwy dafarn uchod? Efallai i'r tafarnwyr fod yn llwyddiannus yn eu hapêl, ac mai'n ddiweddarach y daeth oes y ddwy dafarn i ben.

Mae'n sicr fod llawer o rai eraill wedi cau cyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf wrth i reolaeth y bragwyr mawr dynhau ar y farchnad ddiod feddwol. Roedd pentref Cwm y Glo, wrth gwrs, yn enwog am y nifer o dafarndai oedd yn bodoli yno ar un cyfnod, ond diflannodd nifer helaeth o dafarnau o bentrefi eraill y fro hefyd. Beth am restru rhai ar gyfer eich pentref chwi?

Teulu Jeri

Addewais y mis diwethaf i roi mwy o hanes pam y galwyd trigolion Llanrug wrth yr enw hwn. Yn anffodus, mae'r gwaith chwilio wedi codi sgwarnog, gan fod dau Jeri wedi dod i'r amlwg a allai ffitio'r enw. Gohiriaf yr hanes nes gorffen chwilota'n iawn i ddau berson o'r enw Jeremiah.

Dr Fox

Gan Eifion Roberts y cafwyd y llun hwn; llun o ciddo Buddug Hughes o Lanberis. Credir mai Dr Fox yw'r gwrthrych. Yr oedd yn cadw cwch ym Mhenbont, Llanberis. Yr oedd Buddug Hughes, a hithau ond yn ddeg oed, yn rhwyfo'r cwch allan ar Lyn Padarn er mwyn i Dr Fox a'i thaid, Henry Rowlands, gael pysgota. Roedd Henry Rowlands yn dad i'r pysgotwyr Robin a Harry Rowlands. Weithiau byddai angen eu rhwyfo ar hyd afon y Bala i Lyn Peris.

Roedd y cwch yn hen iawn, ac un diwrnod ar ôl glaw trwm fe suddodd. Arweiniodd hyn i ffræ rhwng mam Buddug a'i thaid oherwydd iddo ganiatau mentro bywyd y ferch fach ddeg oed yn rhwyfo cwch mor fregus ar hyd y ddau lyn!



Dr. Fox

Cais am Wybodaeth

Mae cyfaill o Gaernarfon yn ceisio mwy o wybodaeth am berson o'r enw Griffith Rowlands oedd yn byw am gyfnod mewn tŷ o'r enw Pant y Celyn, Cwm y Glo. Bu'n aelod o'r Ffiwsilwyr Cymreig yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, a chredir fod ganddo gysylltiadau hefyd ag ardal Pen Deitsh, Caernarfon. Os oes rhywun â gwybodaeth am Griffith Rowlands, neu gydag ymholiad neu ymateb i unrhyw ran arall o hanes y fro, cysylltwch â:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon.

(Ffôn: 01286 673515)

COELCERTH I GEFFYL!



Yn 1912 enillodd Jerry M y Grand National gydag Ernest Piggott ar ei gefn. Ei berchennog? Sir Charles Garden Assheton-Smith - perchenog y Faenol a sgweiar yr holl ardal yma. I ddathlu'r fuddugoliaeth fe adeiladwyd y goelcerth anferth yma. Lle roedd y goelcerth tybed? Does dim digon o gefndir i'w lleoli yn y llun ond rhywle yn Llanberis dybiwn i.

Ronnie Evans biau'r llun ac fe'i cafodd gan ei dad Cernyw

Evans. Mae o'n sicr fod un o drenau'r chwarel wedi ei henwi ar ôl y ceffyl. Oes yna rhywun yn gwybod hanes y dren?

Fe enillodd Jerry M 14 o'i 20 rās. Daeth Jerry M yn ail yn y Grand Steeplechase de Paris yn 1910.

Ar ôl ei fuddugoliaeth yn 1912 ni farchogwyd o wedyn mewn ras ac fe'i rhoddwyd i llawr yn 1914. Cafodd le da yn stablau'r Faenol - llawer gwell cyfleusterau na'r helyw o'r tenantiaid!

Mae pobl dros 50 oed yn ymddiried yng nghynhyrchion a gwasanaethau Age Concern

Yswiriant Cartref

Yswiriant Cerbydau a Diffyg ar y Modur

Yswiriant Teithio

Cynllunio Angladd

Cyflenwadau Trydan a Nwy

Am fwy o wybodaeth ymwelwch â ni yn:

Age Concern Gwynedd a Môn

Ty Seiont, Ffordd Santos Helen

Caernarfon, Gwynedd LL55 2YD

01286 678310

gan ddyfynnu'r cyfeirnod: Eco'r Wyddfa

AGE
Concern

Os buddhych yn eiddoedd a swyddau Age Concern, byddwch yn ymwneud a chymryd llydd penodol o Age Concern Enterprises Limited (AGENT). Mae AGE'n gweithredu ei awdurdod a'i reolwriaeth gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA) ar gyfer cyfngyngiad yswiriant. Mae'n Age Concern, sefydlu yn eiddoedd grefyddol.

PADARN LAKE

LLANBERIS (01286) 870260



**PRYDAU DA AR GAEL
POB DYDD**

CANOL DYDD

A GYDA'R NOS

**Cinio Dydd Sul (CARVERY) rhwng
12.30 a 3.00 o'r gloch**

TE BACH POB DYDD RHWNG 2.30 a 5.00

Cyfleusterau- Bartion • Priodasau ac Achlysuron Arbennig

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

YR YSGOL GYMUNED.

Dydd Gŵyl Dewi. Daeth y plant i'r ysgol mewn gwisg Gymreig, yn ogystal mwynhawyd cinio blasus Cymreig wedi ei baratoi gan Anti Carolyn.

Diwrnod y Llyfr. Cynhaliwyd gweithgareddau diwrnod y Llyfr ar 4 Mawrth.

Gwasanaeth Boreol. Daeth Mr Andrew Setatree draw i'r ysgol fore dydd Llun, 8 Mawrth, i roi sgwrs i'r plant.

Llwyddiant. Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn yn Eisteddfodau Cylch a Sir yr Urdd. Yn y Cylch cafwyd 3 cyntaf gyda'r Côr, Parti Unsain a'r Gân Actol. Cafodd y Parti Llefaru yr ail wobwr a'r Parti Cerdd Dant y drydedd gwobr.

Yn y Sir enillwyd y wobwr gyntaf gan y Parti Unsain a'r Gân Actol. Cafodd y Côr yr ail wobwr yn erbyn corau o ysgolion i fyny i 150 o ddisgyblion. Dymunwn y gorau iddynt yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llannerchaeron ym mis Mehefin. Gobeithiwn drefnu gweithgareddau i godi arian tuag at y costau a gwerthfawrogn eich cefnogaeth os gwelwch yn dda.

Llongyfarchiadau mawr hefyd i William Lamb, Blwyddyn 7, Ysgol Brynrefail, ar gipio'r ail safle gyda'r Clarinet a hynny mewn cystadleuaeth agos dros ben yn Eisteddfod Cylch yr Urdd.

CROESO. Croeso mawr i Nel, merch fach i Rhian a Stephen a chwaer i Elin Prysor a Harri. Llongyfarchiadau hefyd i Nan a Taid, Avril a Geraint, Careb. Pob bendith i chwi oll fel teulu. **PEN-BLWYDD.** Dymuniadau

gorau i Miss Nancy Williams, 15 Bryn Tirion, ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. **PÊL BONWS LOTERI.** Enillydd mis Chwefror oedd Mrs Jean Jones, 24 Bryn Tirion gyda rhif 47. Llongyfarchiadau! **CYDYMDEIMLIR** yn ddwys iawn ag Emyr a Megan a'r teulu, 13 Bryn Tirion, o golli mam Emyr o Lanberis yn ddiweddar.


Ein cydymdeimlad llwyr af hefyd â Bethan, Cae Corniog, yn ei cholled sydyn ac annisgwyl o golli cymar a ffrind annwyl a phoblogaidd, Richard Merfyn, neu Beno fel yr adnabyddid ef gan ei lu o ffrindiau.

GWELLHAD. Wedi ffarwelio â'r gaeaf du croesewir y gwanwyn gan obeithio y bydd pawb yn gwella. Anfonwn gofion arbennig at Arvonja, Llys y Gwynt; Brian, Perthi; Gwyneth, Minffordd ac at Nansi, Meillionydd. Rydym yn holi'n gyson amdanoch. Ein cofion annwyl hefyd at Annie Hughes, Cae Hywel, sydd mewn cartref yn Llanberis. Gobeithio bod Wil Jones, Bryn Tirion yn gwella wedi triniaeth i'w ysgwydd yn Ysbyty Gwynedd. **PRIODAS AUR.**

Llongyfarchiadau i Selwyn a Myra Griffith, Bryn Eglwys, ar ddathlu hanner can mlynedd o briodas.

PEN-BLWYDDI ARBENNIG. Mae nifer o blant y flwyddyn 1960 yn dathlu eu pen-blwyddi yn 50 oed eleni. Llongyfarchiadau i bob un ohonoch. Deallir fod 2009/2010 yn flwyddyn y degawdau i deulu Meillionydd - Dylan wedi dathlu'r 40, Anwen ei 50 a dymunir y gorau i Nansi a fydd yn dathlu ei phen-blwydd yn 80 ar 23 Ebrill.

Llongyfarchiadau hefyd i



GWYNANT PIERCE

Cynrychiol Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG
Ffôn: (01286) 674183
(0589) 899901

Betty Pritchard, 3 Llys y Gwynt, hithau yn dathlu cyrraedd yr 80 ar 24 Ebrill - roedd Nansi a Betty yn gyfeillion yn Ysgol Tan y Coed. **YSGOL SUL BOSRA.** Bu'n gyfnod 'Dwylo Prysor' yn ddiweddar yn creu cardiau cyfarch Gŵyl Ddewi, Sul y Mamau a chardiau Pasg.

Mae cyfnod 'Dysgu Prysor' ar y gweill hefyd gyda **Chymanfa'r Annibynwyr** ar Sul, 23 Mai am 2.00 o'r gloch, i'w chynnal yn y Neuadd Gymuned yma ym Mhenisarwaun. Arweinydd y Gân fydd Gareth Jones, Llanberis, felly bydd digon o fynd a hwyyl a sbri. Trefnir bws i gludo cefnogwyr o Lanberis, Cwm-y-Glo a Deiniolen.

Cynhelir **Cymanfa'r Methodistiaid** yma yn y Neuadd Gymuned yn mis Mehefin gyda John Eifion yn arwain y gan gyda detholiad o ganeuon bywiog a chyfoes. Bydd Te Bach a Chlonc i ddilyn ar ôl y Gymanfa hon.

APÊL ADNEWYDDU'R CAPEL. Y mae to'r Capel eisoes wedi ei adnewyddu ac mae trefniadau yn cael eu gwneud i gael ffenestri newydd a hynny yn fuan. Dyna pam y cynhelir y Cymanfaoedd yn y Neuadd Gymuned eleni. Bu gwerthiant y Calendr am £1 yn diwrnod yn hynod llwyddiannus.

Dymunir diolch i aelodau'r Pwyllgor am y gwerthiant ac i bawb a gefnogodd drwy brynu'n hael. Gwerthwyd bron i 200 diwrnod a'r enillydd lwcus yw Brenda Richardson, Bryn Hyfryd. Llongyfarchiadau i chi. **PWYLLGOR NEUADD GYMUNED.** Tynnwyd Clwb Cant Mawrth a'r enillwyr oedd: Aled Green, Rhos Wian a Iolo Hughes, Carmel (wyr Nansi).

DISGO'R PASG. Cynhaliwyd Disgo'r Pasg yng ngofal Glesni

Jones a'i ffrindiau yn y Neuadd Gymuned nos Iau, 25 Mawrth o 6.30 tan 8.00. Roedd stondinau, tombola, raffl Basg, cŵn poeth, cystadleuaeth enwi'r gwningen Basg a chystadleuaeth addurno Het Basg. Dymunir diolch i Selwyn Griffith, Llanrug, am gael benthg yr offer.

Cynhelir Miri Mai ar nos Iau, 20 Mai.

Dymuna aelodau'r Pwyllgor longyfarch aelodau'r Urdd ar eu llwyddiant ysgubol yn yr Eisteddfodau Cylch a Sir. Pob dymuniad da gyda'r Gân Actol a'r Parti Unsain yn y Genedlaethol ddechrau Mehefin. Pob dymuniad da hefyd i bawb o gylch yr Eco.

PWYLLGOR APÊL EISTEDD FOD GENEOLAETHOL YR URDD ERYRI. Cynhaliwyd Pwyllgor llawn, gyda 15 o aelodau brwdfrydig yn bresennol. Lluniwyd llythyr dwyieithog gan y swyddogion i'w ddosbarthu i bob tŷ ym Mhenisarwaun a Brynrefail a chafwyd sêl bendith yr aelodau ar y llythyr. Bydd copiau yn cael eu cynhyrchu yn Adran yr Urdd, Parc Menai, a cheir amlenni gyda nod yr Urdd arnynt ar gyfer bob llythyr. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn dod o amgylch yn fuan gan obeithio y cawn eich cefnogaeth arferol. Diolch o galon.

EGLWYS SANTES HELEN.

Dydd Gwener y Groglith: Cynhelir Awr Dawel a Myfyrdod am 2.00 o'r gloch

Sul y Pasg:

Gwasanaethir y Cymun Bendigaid fore Sul gan y Parchedig Lloyd Jones am 11.00 o'r gloch.

Dymunir Pasg Dedwydd i bawb.

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTION • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLLIAU

RHOSTIO MOCHYN

AR GYFER
POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol
* Partion rhwng 40 a 400!
* Cyda saws afal a stwffin mewn
rholliau
* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!
Cysylltwch â
JOHN BRYNAFON
LLANRUG
Y DYD CIG ar 675190 / 673188
Ffôn symudol: 07798 718188
wefan: www.ydyncig.co.uk

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN
Ffôn: (01286) 870846



Problem gyda'ch cyfrifiadur?

Am wasanaeth cyfeillgar i ddatrys
a gwella eich cyfrifiadur cysylltwch
â **Gomer Roberts**
Ffôn: 01286 870462
Symudol: 07962 712368

Gymorth a hyfforddiant amyneddgar i bob oedran er
mwyn i chi fedru mwynhau defnyddio eich cyfrifiadur!

O SLAMBAR SELWYN

Fe'm ganed i yn Gwynfryn, Bethel - 'taith-deud-adnod' o Gapel hardd yr Annibynwyr, capel yr ydw i wedi bod yn gysylltiedig ag o drwy gydol fy oes. Mae'n chwith meddwl ei fod o bellach ar werth.

Union ddau gan mlynedd i eleni yr adeiladwyd y capel cyntaf pryd y penderfynodd tri ar ddeg o aelodau a arferai addoli yn 'Y Ddôl' anfon deiseb yn gwneud cais am gael codi capel. Fe roddwyd y caniatâd swyddogol hwnnw ar yr 8fed o Hydref, 1810. O fewn tair blynedd bu'n rhaid codi'r ail gapel. Adeiladwyd y trydydd yn 1839, y pedwerydd yn 1856, a'r pumed yn 1866. Yn 1901 yr adeiladwyd y capel fel ag y mae o heddiw, ond newidiwyd enw y pentref o fod yn Rhos Chwillog, i Bethel yn 1810.

Dywedir i'r gost o'i adeiladu yn 1901 fod yn £2,500. Costiodd y Ffestri £450 a Llys Myfyr £725, cyfanswm o £3,675. Talwyd y cyfan o'r dyledion heb na basâr, cyngerdd na darlith, dim ond cyfraniadau rheolaidd yr aelodau, a chofiwn mai chwarelwyr cyffredin oedd bron pob un ohonynt. Mae gen i gopi o lythyr a dderbyniais oddi wrth y diweddar Ffowc Williams, Llandudno, sy'n cyfeirio at y noson.

"Mae gen i go' byw iawn o Rhys J. Huws yn cyhoeddi ar nos Sul yn yr hen gapel na fyddai 'na seiat ar ôl yr oedfa, - ond fod eisiau i bob aelod a gwrandawr aros ar ôl, gan fod ganddo fater pwysig i'w drafod. Cofiaf ef yn mynd o amgylch gan gyfarch pob aelod wrth ei enw, a gofyn iddyn nhw, -

'Os penderfynwn i godi capel newydd, a wnewch chi eich gorau i wneud eich rhan i ddwyn y baich?' Yna fe aeth yn ôl i'r set fawr a chyhoeddi. 'Dyna fo, mae pawb wedi addo i wneud ei orau. Mae gen i un amod - rhoddion gwirfoddol yn unig a ddefnyddir i glirio'r gost.' Cytunwyd, a dyna fu'r hanes o'r dechrau i'r diwedd. Roedd Rhys J. Huws wedi mynd i Fethesda, ac wedyn i Glanam cyn i hanner y gost gael ei chlirio, ond roedd 'na ormod o barch i'r adderwid a wnaed iddo i newid dim ar y drefn o dalu am y capel."

Roedd y capel newydd yn enwog am ei Gerddorfa, ac mae gen i gof da am rai fcl Dic, Tyddyn Gwndwn; Awel (chwaer fy nhad); a Hughie Benros, y ffyddlonaf un a fu yno, yn unig yn y gornel am flynnyddoedd hefo'i fflwt. Yn ôl at lythyr Ffowc Williams,

"Yn y capel newydd y cynhalwyd yr Eisteddfod gyntaf. Nid cyfansoddi cerdd a wnaed i gynnig am y gadair, ond astudio barddoniaeth gaeth. Cofiaf yn dda

i mi ddysgu cywydd 'Y Farn Fawr', Goronwy Owen, a pha gynghanedd oedd ymhob llinell."

Y cyntaf i ennill y Gadair oedd Hugh Griffith, cefnder i'r Athro W.J. Gruffydd ac mae'r gadair honno i'w gweld yng nghyntedd y capel heddiw. Bu Hugh Griffith yn brifathro yn Llanllyfni ac, yn ddiweddarach, yn Hen Golwyn. Cefais lythyr ganddo pan oeddwn yn y Coleg Normal ac wedi penderfynu gwneud fy nhraethawd hir ar 'Dylanwad Rhys J. Huws ar blant Bethel a Chymru'. Roedd o'n hynod falch fy mod i'n ymgymryd â'r gwaith.

Gyda llaw yn un o eisteddfodau Rhys J. Huws ym Methesda yr enillodd Cynan ei Gadair gyntaf erioed.

Ond cyfnod y Parchedig R. Lloyd Matthews fel gweinidog a erys ar fy nghof i fwyaf. Fo oedd yma yn ystod fy mhlethynnod a fy arddegau. Mae'n siŵr gen i mai fo fedyddiodd fi. Fo, yn sicr, â'm derbyniodd i yn gyflawn aelod a fo gyflwynodd Feibl i mi pan orfodwyd fi i ymuno â'r Llu Awyr am gyfnod. Monwysyn a heli'r môr yn ei wythiennau oedd Mr Matthews. Sigl urddasol ei gerddeddiad llongwr fel cwch hwylio yn rhodio hyd y fro, a'i arabedd mor grafog a'r llanw'n sgwrio'r graean ar draeth Llugwy.

Ei gofio ar ddydd angladd 'Nhad. Gwynt traed y meirw yn cneifio Llanddeiniolen, a thwca rhewynt Mawrth yn gwanu i'r mêr, ond grym ei weddi yn lleddfu brath yr hiraeth. Oedd, roedd Mr Matthews yno i dawelu'r dymestl pan gurai'r corwyntoedd ar aelwydydd bro. Roedd o yn un o arwyr mam.

Ydi, mae'n chwith meddwl fod yr hen gapel 'Ar Werth'. Daw sawl atgof, llon a lleddf, yn ôl. Ond fe ddeil yr 'achos' ym Methel ac mi fyddwn ni, y dwsin ffyddlon, yn dal i addoli yn y festri ar fore Sul. Fydd 'na rai yn dal i addoli yma ymhen dau gan mlynedd arall? Diogon o waith

UN FUNUD FACH

Dydd marwolaeth oedd y dydd Gwener hwnnw, a honno'n farwolaeth gwbl ryfeddol. Y dyn a hoeliwyd rhwng dau leidr ar Galfaria oedd yr unig un erioed nad oedd rhaid iddo farw. Nid yn unig nad oedd yn haeddu'r farwolaeth erchyll honno a roddid i droseddwy, ond doedd o ddim yn haeddu marw o gwbl. Roedd ei fywyd perffaith yn brawf nad oedd Iesu yn rhannu â gweddill y ddynoliaeth y duedd i bechu sy'n golygu ein bod yn rhwym o farw. Doedd dim rhaid iddo farw o'i ran ei hun. Ac eto, er ein mwyn ni, roedd rhaid iddo farw, am fod Duw'n gwybod mai dyna'r unig ffordd i achub y byd. Dewis marw wnaeth Iesu, felly, am ei fod o'r un feddwl a'r un bwriad â'i Dad.

Dydd marwolaeth oedd y dydd Sadwrn. Does gan yr Efengylau fawr i'w ddweud am y Saboth hwnnw, ac eithrio'r ffaith i'r Phariseaid a'r prif offeiriaid gynllwynio i gadw'r bedd dan glo. A beth ellid ei ddweud am y diwrnod hwnnw pa un bynnag, â Goleuni'r Byd mewn tywyll fedd, a Bara'r Bywyd yn safn angau? Roedd anobaith a galar yn llenwi'r dydd, a chysgod angau'n drwm drosto.

A dydd marwolaeth hefyd oedd y dydd Sul. Rhan o ryfeddod mawr y Pasg yw bod dydd yr Atgyfodiad yr un pryd yn ddydd marwolaeth. Daeth Iesu'n ôl o'r bedd yn fyw, oherwydd

'Ni allodd angau du ddal

Iesu'n gaeth

ddim hwy na'r trydydd dydd;
yn rhydd y daeth!'

Chwalwyd yr anobaith a drylliwyd y galar. Pan gododd Crist o'r bedd, rhoddwyd ergyd farwol i farwolaeth ei hun. Neges syfrdanol y Pasg yw:

'Bu'n angau i'n hangau ni
wrth farw ar y pren'.

Y dydd Gwener y bu farw Iesu, aeth pobman yn dywyll am dair awr; rhwygwyd llen y Deml o'r pen i'r gwaelod; siglwyd y ddaear a holltwyd y creigiau; agorwyd beddau a chodwyd cyrff llawer o saint. Ac er mor real a dychrynlyd oedd y farwolaeth hon, nid oedd yn derfynol. Ymhen tridiau, roedd Iesu Grist yn ôl o'r bedd yn fyw. Ond roedd y farwolaeth a gafwyd ar Sul y Pasg yn gwbl derfynol. Trwy atgyfodiad Iesu, fe orchfygwyd angau. Lladdwyd marwolaeth, fel na fedr mwyach ddal Iesu, na'r rhai sy'n credu ynddo, yn gaeth. Y Pasg hwn, felly, dathlwn gyfodiad Crist a thranc angau.

JOHN PRITCHARD

Stôf Draddodiadol neu FODERN i gynhesu eich tŷ

CYSYLLTWCH Â



JOHN HUGHES a'i FAB
IARD LO • Carmel • Gwynedd
01286 882160

Am gymorth:

- i gychwyn prosiect
- i gael hyfforddiant
- i geisio am grant
- i redeg mudiad
- i wirfoddoli



Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups

cysylltwch â Mantell Gwynedd

- yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol

ymholiadau@mantellgwynedd.com www.mantellgwynedd.com

01286 672626 neu 01341 422575

Elusen Gofrestredig 1068851 • Cofrestrwyd yng Nghymru • Cwmni Cyfnewid drwy Warant 3420271

SMALA

www.smala.net

CYNNIG ARBENNIG

Gwefan

am £150 +TAW

www.eichenw.com

+ gwefan fechan

+ cyfeiriad ebost

01286 660 364

07887 654 251

Phillip Foulkes

CONTRACTIWR PLASTRO

Mewnol • Allanol Drylining

Plastfyrdio Yn Ei Le

Ymgynghori Ac Amcangyfrifi Am ddim

Tel. 07760393155

ebost- phillipfoulkes@hotmail.co.uk

PENCAMPWR PRYDAIN 2009

Enillydd Dosbarth Plastrwr a Chyffredinol

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

Y CYMERIAD OLAF? Gyda marwolaeth sydyn Richard Merfyn Roberts ('Beno') yn 57 mlwydd oed ar 25 Chwefror, bu farw un o gymeriadau Caeathro, Caernarfon a Chymru. Roedd y dorf luosog o 700 yn y gwasanaeth yn Eglwys Llanbeblig – ac wedyn ym Mynwent Caeathro, yn dyst i Beno – y dyn, y tad, y canwr, y digrifwr a chyfaill i bawb. Roedd y blodau ar y bedd yn dyst i bopeth. Cydymdeimlwn â'r teulu ac â'i gymar, Bethan. Ni fydd Caeathro yr un lle hebdo. **GWASANAETHAU'R CAPEL.** Cynhelir yr oedfaon canlynol yn ystod mis Ebrill:

4: (Sul y Pasg) 10.00 Parch Iorwerth Jones Owen

11: Dim oedfa nac Ysgol Sul (Gwyliau'r Pasg)

18: 2.00 Mr Richard Lloyd Jones

25: 11.00 Ysgol Sul

HELFA WYAU PASG. Diolch i gefnogaeth hap-chwaraewyr y Tynfa Misol roedd gan y Pwyllgor Cae Chwarae arian i brynu wyau Pasg i blant y pentref. Unwaith eto mae'r

Pwyllgor yn dra diolchgar i Plas Glangwna am leoliad yr helfa a'r hwyl a'r lletygarwch.

CLWB Y MERCHED. I Goleg Menai, Bangor, yr aethom am ein cinio Gŵyl Dewi ddiwedd Chwefror. Ynghanol awyrgylch hwyliog a chynnes myfyrwyr ifanc y Coleg, cawsom flas ar fwyd wedi ei baratoi yn ganmoledig iawn. Gweinwyd arnom, yn gwrtais ac yn broffesiynol a phawb wedi eu bodloni. Diolchodd y llywydd iddynt am noson lwyddiannus. Rhoddwyd y raffl gan Dilys ac fe'i henillwyd gan Helen.

Ar ddiwedd y noson cyfeiriwyd at y newydd trist a glysom, ychydig oriau ynghynt, am farwolaeth sydyn Richard Merfyn, un o drigolion mwyaf lliwgar ac unigryw y pentref. Roedd ein cydymdeimlad yn fawr â Bethan, ei gymar, a'i holl deulu.

TYNFA MISOL. Enillwyr Tynfa Misol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro yn mis Mawrth oedd:

£40: (19) Karen Elements, Plas Glangwna Uchaf; £25: (02) Peter

ac Olga Evison, Cae Hopcyn; £15: (34) Aled Vaughan, Llwyn Onn; £5: (31) Bryn Griffiths, Delfryn.

APÊL HAITI. Diolch i haelioni trigolion Caeathro a Rhosbach, casglwyd £622.05 tuag at geisio lleihau'r tlodi yn dilyn y daeargryn enfawr yn Haiti.

EISTEDDFOD YR URDD. Yn dilyn cyfarfod yng Nghanolfan y Capel, dewiswyd Pwyllgor llywio cychwynnol er mwyn codi £2,000 tuag at yr apêl lleol. Yr ymdrech gyntaf fydd apelio am roddion uniongyrchol, naill ai trwy swm misol trwy orchymyn banc neu rodd unwaith ac am byth. Ar ben y symiau hyn bydd cyfraniad 'rhodd cymorth'. Bydd rhywun yn curo ar eich drws cyn bo hir! **CYFARFODYDD**

BLYNYDDOL 1938.

Cynhaliwyd cyfarfodydd blynyddol Undeb Bedyddwyr Cymru a Mynwy yng Nghaersalem, Caernarfon, rhwng 29 Awst a 1 Medi, yn y flwyddyn 1938. Nid oes sôn am unrhyw gapel Bedyddwyr yng Nghaeathro erioed, gyda'r rhai agosaf yn Llanrug a'r Waunfawr. Fodd bynnag, ymhlith y sawl yng Nghaeathro a oedd wedi cynnig lletygarwch i'r cynrychiolwyr oedd Mrs E.

Williams, Cefngwern a Mrs Owen, Mur Mathew. Yn Y Drysorfa gwelir enwau'r sawl a oedd wedi tanysgrifio at gostau cynnal y cyfarfodydd. Yng Nghaeathro gwelir enw Mrs Blaenllechau Jones (£1.1s.0c.) a'r Parch J. Smith, Bodawel (10 swllt). Roedd y trê'n o Gaerdydd, trwy Gaer, i Gaernarfon yn cymryd 7 awr! (4 awr yw'r amser heddiw) ac o Aberystwyth, trwy Afonwen, i Gaernarfon yn cymryd dros 4 awr.

CYW PASG. Croeso mawr i Tomos Alun, mab i Ceri Ann a Paul, Hen Gapel. Fo oedd yr ieuengaf i dderbyn Wy Pasg gan Gymdeithas Cae Chwarae Caeathro eleni!

BECHDAN FFYRDD. Efallai bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnig dewis o ffyrdd osgoi yn agos i'r Bontnewydd a Chaernarfon, ond mae pentref Caeathro – a Rhos Bach – yn 'ffilin' rhwng y dewisiadau o'r cynigion i ni. Oherwydd hyn cynhaliwyd arddangosfa bach yng Nghanolfan y Capel. Gellir cymryd copi o'r llyfryn esboniadol o'r cyntedd pan fydd yr adeilad ar agor. Anogir pawb i leisio eu barn trwy gwblhau a dychwelyd yr holiadur (yn rhad ac am ddim!) gyda'ch teimladau.

Dweud eich dweud

Dim gwasanaeth Cymraeg?

Anfodlon â'r gwasanaeth Cymraeg a gawsoch?

Am gyngor ynghylch eich hawl i gwyno am gorff cyhoeddus a sut i wneud hynny, cysylltwch â:

Bwrdd yr Iaith Gymraeg,
Siambrau'r Farchnad, 5-7 Heol Eglwys Fair,
Caerdydd, CF10 1AT

029 2087 8000

post@byig-wlb.org.uk byig-wlb.org.uk



BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Diolch yn fawr i Gyfeillion a Rhieni yr Ysgol am drefnu noson i ddathlu Dydd Gwyl Dewi yng nghwmni Cas Meurig, Pigyn Clust, Nial a Danny Cain a phlant yr ysgol. Wedi cyngerdd gwych yng Nghapel Tabernacl daeth pawb draw i'r ysgol am baned, teisen a sgwrs.

Roedd prysurdeb mawr yn yr ysgol wrth i ni baratoi ar gyfer eisteddfodau yr Urdd. Ein diolch i Miss Eleri Jones am hyfforddi y plant – braf oedd eu gweld yn mwynhau perfformio ar lwyfan Ysgol Brynrefail, yn Ysgol Maesincla ac yn Neuadd Pritchard Jones ym Mangor. Da iawn chi, blant; rydym yn falch ohonoch!

Bu dosbarthiadau Llydaw a Marchlyn yn Amgueddfa Lechi Llanberis ar ddydd Iau, Mawrth 11eg yn cael gweithdy cerddoriaeth 'rap' ar newid hinsawdd. Roedd hwn yn brofiad ardderchog gyda'r ddau ddosbarth wedi llwyddo i gyfansoddi i safon uchel.

Cafwyd noson ddiddorol a llwyddiannus yng nghwmni y plant yn ddiweddar pan wahoddwyd rhieni i'r ysgol i gael cyflwyniadau a chynghor gan y plant ar ddiogelwch wrth ddefnyddio y rhyngwrdd. Roedd plant dosbarth Marchlyn wedi ymchwilio yn fanwl ac roedd eu cyflwyniadau yn hynod aeddfed a defnyddiol.

Daeth y cerddor taro enwog, y Dr. Dewi Ellis Jones, i'r ysgol

ar brynawn Gwener, Mawrth 12fed er mwyn cynnal y cyntaf o'i bedwar gweithdy gyda phlant blynyddoedd pedwar, pump a chwech. Rydym yn hynod o ffodus o'i gael yma gan ei fod yn brysur iawn ledled Cymru a thu hwnt.

Bu plant dosbarth Marchlyn yng Nghanolfan Thomas Telford, Porthaethwy, ar ddydd Mawrth, Mawrth 16eg yn mwynhau gweithgareddau ar bontydd a sut i'w hadeiladau.

Bu plant dosbarth Llydaw yn ymweld ag eglwys a chapeli yn Llanberis a Chaernarfon fel rhan o'u hastudiaethau addysg grefyddol ar ddydd Mawrth, Mawrth 23ain.

Bydd disgyblion dosbarth Marchlyn yn mentro draw i Blas Menai am wythnos ddiwedd mis Mawrth er mwyn manteisio ar y cyfle i ddysgu hwylfyrddio, caicio a hwylio. Gobeithio bydd y tywydd yn ffafriol – rydym yn edrych ymlaen i glywedd cich newyddion a gweld eich lluniau!

Ein llongyfrachiadau a dymuniadau gorau i Mr. a Mrs. G. Roberts (Miss Smith) ar enedigaeith Iestyn Fôn – brawd bach a ffrind newydd i Trystan. Rydym yn edrych ymlaen i'ch gweld yn yr ysgol yn fuan.

LLONGYFARCHIADAU i Siôn, 16 Dôl Afon, ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 18 oed, hefyd i Mrs Catherine Foulkes, 3 Rhos Bryn, ar ddathlu ei



Y Dr. Dewi Ellis Jones yn arddangos ei offerynnau taro i blant blynyddoedd pedwar, pump a chwech.



Ellie a phlant dosbarth Marchlyn yn gwrando ar gyflwyniad difyr Mr. Bob Daimond wrth gadwynau trawiadol Pont Menai.

phen-blwydd hithau yn 70 mlwydd oed.

YN YR YSBYTY. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i Mrs Marjorie Roberts, Bod Gwilym Allt Goch, sydd yn derbyn llawdriniaeth i'w chlun yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCH. Dymuna Catherine Foulkes, 3 Bryn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, yr anrhegion, arian a blodau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 70

oed. Diolch yn fawr iawn.

UNDEB Y MAMAU. Cafwyd cyfarfod yn Feed My Lambs bnawn Mawrth, 16 Chwefror. Ar ôl gwasanaeth byr trafodwyd materion perthnasol ac yna mwynhaodd yr aelodau gremfogau blasus wedi eu paratoi gan rai o'r aelodau.

Bnawn Mawrth, 16 Mawrth, cafwyd pnawn tawel yn Eglwys Sant Mair Caernarfon. Rhoddwyd y bregeth gan y Parch Jeffrey Hughes. Y gwesteion oedd Mrs Dorothy Jones a Mrs Gwyneth Jones (yn absenoldeb Mrs Marjorie Roberts).

Bnawn Mawrth, 20 Ebrill, bydd y cyfarfod nesaf yn Feed My Lambs am 2.00 o'r gloch a'r gŵr gwadd fydd y Canon Geraint Meirion Jones.

Mae'n rhaid i mi starad hefo rhywun

Y SAMARIAID

(01248) 674985

1885-2010 Dathlu 125 mlynedd Eglwys St Padarn, Llanberis 20-26 Mehefin 2010

Mae cynlluniau mawr ar y gweill i ddathlu'r achlysur arbennig hwn.

Mae wythnos lawn o weithgareddau ar eich cyfer.

Bydd cychwyn ar y dathlu nos Sul, 20fed o Fehefin gyda **CHYMANFA GANU** a pherfformiadau gan gorau lleol dan arweiniad Iwan Wyn Williams

Yna, yn ystod yr wythnos bydd **TAITH GERDDED** o Eglwys St Peris i Eglwys St Padarn; **GWASANAETH O OFFEREN** yr ŵyl gyda'r Esgob a chyn Offeiriad yr Eglwys;

PARTI GWISG FFANSI oes Fictoria i blant ysgolion Sul y plwyf a **NOSON LAWEN** yng nghwmni plant Ysgol Dolbadarn.

Hefyd, bydd yr Eglwys ar agor yn ystod yr wythnos gyda **GŴYL**

FLODAU ac **ARDDANGOSFA O HEN LUNIAU** a chreiriau.

Bydd yr wythnos yn diweddgu gyda **CHYNGERDD** ar nos Sadwrn 26ain o Fehefin dan arweiniad Stephen Edwards, gyda

Timothy Ward, Elin Mai Jones, Grŵp Jazz a Chôr y Gogledd.

Bydd amserlen o holl weithgareddau'r wythnos yn ymddangos yn y dyfodol agos. Edrychwn ymlaen at gael eich cwmni i ddathlu'r achlysur.

Am fwy o fanyllion cysylltwch â'r rheithor Mr Robert Townsend ar
(01206) 073670



Gwasanaeth Gwres a Plymio



Ar Gyfer Eich Holl Anghenion Gwres A Plymio
Gwaith proffesiynol o'r safon orau pob amser

Arwel Jones • Tyn y Maes • Cwm y Glo LL55 4DH
Tel. (01286) 872225 Mobile- 07798 746718

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE, Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU

YSGOL BRYNREFAIL

Gweithdy Radio C2

Ar ddydd Gwener, 27ain Chwefror, daeth taith ysgolion C2 i Ysgol Brynrefail. Dechreuodd y diwrnod gyda phawb o C2 yn cyflwyno eu hunain a beth oeddynt yn ei wneud yn y cyfryngau a sut roedd hyn yn helpu i greu'r sioe. Y person cyfarwydd i ni i gyd oedd y gyflwynwraig boblogaidd Magi Dodd.

Yna cawsom ein rhannu i grwpiau o 8 ac yna rhoddwyd rôl wahanol i bawb. Cefais fy newis i fod yn gyflwynydd am fod gen i ddigon o geg. Roedd 3

O.B. oedd yn mynd rownd yr Ysgol i gael barn wahanol a'r ddau lais oedd yn cyflwyno'r sioe, sef fi a Llywelyn o flwyddyn 12. Roedd dau dechnegydd yn edrych ar ôl y sioe i wneud yn siŵr fod y meiciau cywir ymlaen ar yr amser cywir ar gyfer y sioe. Wedyn roedd y cynhyrchydd, oedd yn edrych ar ôl y sioe, yn gwneud yn siŵr fod pawb yn gwneud eu gwaith.



Cawsom 20 munud o sioe i gyd a chafodd pawb hwyl a dysgu llawer am y cyfryngau a sut i gynhyrchu sioe.

GERALLT JONES (Blwyddyn 11)



Casgliad at Elusen Hosbis Dewi Sant

Rachel Owen, cynrychiolydd Hosbis Dewi Sant, yn derbyn sic am £484 gan gynrychiolwyr ieuengaf Fforwm Disgyblion yr Ysgol, Robin Williams o flwyddyn 8 a Rhodri Jones, Lowri Jones a Nia Williams o flwyddyn 7. Casglwyd yr arian drwy gynnal diwrnod di-wisg 'Pob Peth Melyn' i'r disgyblion a'r ddydd Gŵyl Dewi.



CYNLLUN 'EFE'

Ar ddydd Mawrth, 2ail Chwefror 2010, bu disgyblion Blwyddyn 7 yn gwrando ar Andrew Settatee, gweithiwr Ieuencid Cristnogol Cynllun 'EFE', eglwys gofalaeth Llanberis, yn sôn am ei waith. Wedi'r sgwrs cafwyd cwis am Gristnogaeth a chymerodd rhai plant yn y dosbarth ran mewn drama fer. Cafodd pob tîm buddugol wob. Cafwyd llawer o hwyl a phawb wedi mwynhau. Gobeithio y cawn ymweliad arall gan Mr Settatee yn y dyfodol agos.

CATRIN LLEWELYN WILLIAMS
(Blwyddyn 7)

Gwobrau Ysgoloriaeth i Fyfyrrwyr Llwyddiannus

Derbyniodd enillwyr Ysgoloriaethau ym Mhrifysgol Bangor eu gwobrau yn y noson cyflwyno Ysgoloriaethau Mynediad a gynhaliwyd yn ddiweddar.

Dyfarwyd tua 1200 o wobrau gwerth bron i £120,000 i 87 o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf, gyda'r mwyafrif ohonynt yn derbyn gwobrau Ysgoloriaeth ar ôl rhagori yn arholiadau Ysgoloriaethau Mynediad y Bhrifysgol.

'Rydym wedi gweld cynnydd yn nifer ymgeiswyr am

Ysgoloriaethau eleni ac mae safon y gystadleuaeth hefyd wedi bod yn hynod uchel,' meddai Carys Roberts, Pennaeth Recriwtio Myfyrwyr. 'Mae'r cynnydd yn nifer yr Ysgoloriaethau'n golygu ein bod hefyd wedi cael ceisiadau amdanynt o ardal ddaearyddol ehangach nag a welwyd yn y gorffennol. Fodd bynnag, mae'n wych gweld cymaint o fyfyrwyr o Ogledd Cymru yn llwyddo yn arholiadau'r Ysgoloriaethau Mynediad ac yn dewis astudio ym Mhrifysgol Bangor.'

Gwobrau'r Ysgol Gymraeg



Iwan Wyn Williams yn cael sic am £1,000 gan yr Athro Colin Baker, Dirprwy Is-Ganghellor ym Mhrifysgol Bangor. Mae Iwan, cyn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, yn dod o Lanberis.

CYNGOR CYMUNED WAUNFAWR

Cynhaliwyd cyfarfod Cyngor Cymuned Waunfawr yn Ganolfan Waunfawr am 7.15 ym 24 Chwefror 2010.

Roedd nifer o'r cyhoedd yn bresennol ar gychwyn ein cyfarfod i drafod cais cynllunio oedd wedi dod i law. Penderfynwyd gwrthod y cais cynllunio oedd dan sylw oherwydd nad oedd dim newid i'r cais gwreiddiol a gyflwynwyd i'r Cyngor Cymuned yn 2008. Bu i'r cais cynllunio gael ei drafod ymhellach gan Pwyllgor Cynllunio Cyngor Gwynedd.

Bu i'r heddlu gael gwahoddiad i'r cyfarfod er mwyn trafod materion yn y pentref. Mynegwyd fod problem o ieuencid yn defnyddio llwybr Gwyrfaï gyda beic modur, maent am gysylltu â'r eiddo cyfagos er mwyn cael mwy o wybodaeth. Trafodwyd y problem o fandaleiddio o amgylch y Ganolfan, mae trafodaethau yn mynd ymlaen er mwyn trio sortio'r problem. Bydd posteri gyda manylion cyswllt newydd ar gael yn fuan.

Llochesau bws - Disgwyl prisiau ar gyfer gwneud y gwaith plastio.

Y fynwent - Arwydd DIM MYNEDIAD wedi cael ei osod ar ddrws y cwt. Cyfarfod o'r Pwyllgor Fynwent i'w gynnal yn fuan.

Llwybrau troed y pentref - doedd dim i'w adrodd.

Gerddi Bach - i'w drafod ymhellach yn ein cyfarfod nesaf.

Roedd 1 cais cynllunio diwygiedig i law. Gwrthodwyd y cais ar sail dim newid i'r cais blaenorol a dderbyniwyd yn 2008.

Roedd 1 cais cynllunio arall wedi derbyn cymeradwyaeth gan Gyngor Gwynedd.

Materion eraill a godwyd yn ystod y cyfarfod:

- Derbyniwyd e-bost o ymddiheuriadau gan Gyngor Gwynedd am unrhyw anhwylystod sydd wedi ei achosi oherwydd camddealltwriaeth yn yr amserlenni bysiau yn ddiweddar.

- Daeth llythrau gan Cyngor Cymuned Betws Garmon a Beddgelert yn cefnogi cael y bws hwyr o Feddgelert i Gaernarfon yn ôl ar yr amserlen bysiau ar gyfer yr haf eleni.

- Nodwyd fod angen sylw i'r llwybr troed ger Pant Gwyn.

- Angen trafodaeth pellach yn ein cyfarfod nesaf ynglŷn â Chynnal a Chadw hawliau tramwy Cyhoeddus yn y pentref.

- Cyfarfod cyhoeddus yn y pentref ar gyfer Eisteddfod yr Urdd 2012, wedi ei drefnu ar gyfer nos Lun 22ain o Chwefror.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Penderfyniadau'r cyfarfod a gynhaliwyd 16eg o Chwefror 2010

- Cefnogi dymuniad Clwb Pêl-droed llewod Llanrug i leoli 'container' yng nghae chwarae Nant y Glyn er mwyn cadw offer ynddo.

- Ysgrifennu at Brifathro Ysgol Brynrefail ynglŷn â'r plant yn taflu ysbwriel yn ystod eu amser cinio.

- Cael biniau baw cŵn ar gyfer Llanrug a Chwmyglo. Os oes problem gyda pherchnogion ddim yn clirio baw eu cŵn neu yn gadael cŵn ar gaeau chwarae'r ysgolion dylid cysylltu â'r Tîm Gorfodaeth Gwastraff ar 01766-77100. Mae dirwy o hyd at £1000 am beidio clirio baw cŵn

- Mynd ymlaen gyda'r ffens ddur rhwng Cae Chwarae Pwll Moelyn a'r Hcn Ysgol.

- Peidio gwrthwynebu'r cais i newid 2 Fron Olcu, Ceunant, ond i dynnu sylw Cyngor Gwynedd i'r problem dŵr sydd yno.

- Rhoi grant o £650 i Glwb Llewod Llanrug.

- Mabwysiadu Cyllideb ar gyfer 2010-11.

- Cwyno i'r Adran Briffyrdd am fod tyllau drwg ar y ffordd yng Nghrawia yn dilyn yr eira a bod

cyffordd Ffordd Glanmoelyn a Ffordd Glanffynnon yn dal i fod gyda problem dŵr yn dilyn tywydd gwlyb.



Hywel Williams
Aelod Seneddol
Etholaeth Caernarfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa yna ffoniwch 01286 672076 i wneud apwyntiad neu ysgrifennwch ato-

Swyddfa Etholaeth
8 Stryd y Castell
Caernarfon LL55 1SE
01286-672076
williamshw@parliament.uk

Cymorth hyblyg i



Gychwyn Eich Busnes



Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



Cymorth Hyblyg i Busnes
Flexible Support for Business

03000 6 03000
chif.cymru.gov.uk

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar yr 2il o Fawrth.

Gweddi. Offrymwyd y weddi agoriadol gan y Cadeirydd.

Asiantaeth yr Amgylchedd Croesawyd Mr Dylan Williams, Arweinydd y Tim Lleol, a Mr Iwan Williams, Cynrychiolydd Gogledd Orllewin Cymru. Gwirfoddolodd y ddau i fynychu'r cyfarfod i drafod ac i amlygu'r sefyllfa bresennol ynglŷn â'r algae ar Lyn Padarn.

Dywedodd Dylan mai eu pwrpas mwyaf oedd ateb cwestiynau a phryderon y Cyngor. Dywedodd mai carthffosiaeth o wahanol ffynonellau, o ddwy ochr y dyffryn, yw'r achos am hyn. Mae'r Bod Mawr yn darparu golau a gwres ond ein lle ni yw rheoli'r maeth (carthffosiaeth) sy'n llifo i'r llyn. Mae'r sefyllfa yn cael ei fonitro yn barhaol er mwyn dod i ganlyniad cywir a theg maes o law, ond bydd yn broses hir. Mae'r Bwrdd Dŵr yn ceisio lleihau'r dŵr glân sy'n llifo i'w gorsaf hidlo ac mae busnesau lleol am gadw'u dŵr wnech rhag mynd i'r pibellau. Hefyd gostwng lefel y phosphates i nentydd ac afonydd.

Ymateb yr aelodau - Huw P. Hughes: bod nifer y pysgotwyr ar afon Seiont wedi gostwng a bod incwm busnes ar y llyn wedi disgyn yn sylweddol a bod effaith andwyol ar dwristiaeth. Len Jones: bydd y golled i fusnesau yn fawr gan y bydd dwy flynedd arall o fonitro. Pat Jones: pa effaith gaiff hyn gael ar anifeiliaid pori wrth ochr yr afon. Elfed Williams: bod hyn yn effeithio ar ddefnydd o'r llong ar y llyn ac a oes perygl y caiff y llong ei stopio?

Ateb y swyddogion - Cyngor Gwynedd fuasai â'r hawl i stopio'r llong pe bai raid. Mae'n anodd dweud beth yw'r effaith ar anifeiliaid heb wybod pa radd o toxic sydd yno.

Aelodau Newydd

Cadarnhad Cyngor Gwynedd na dderbyniwyd cais am etholiad i lenwi'r seddi wag o ganlyniad i'r hysbysebion o'r 26ain o Ionawr tan y 12ed o Chwefror. Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bleser croesawu dau aelod i lenwi dwy sedd wag yn ward Deiniolen. Derbyniwyd Rachel Morris ac Elfed Wyn Williams yn ffurfiol.

Materion o gofnodion Chwefror

Ateb First Hydro nad oes arian yn weddill o gronfa Clash of the Titans ar gyfer Seindorf Arian Deiniolen.

Ffordd Brynhyfryd, Penisa'rwaun, ateb pellach Gwynedd bod y cais ar gyfer blwch halen i gael ei ystyried ymhlith ceisiadau eraill.

Graeanu ffyrdd. Ateb Gwynedd nad ydynt wedi newid eu polisi. Priffyrdd yn cael sylw yn gyntaf, a ffyrdd eraill wedyn, ond bu'n amhosib graeanu'r ffyrdd bychain eleni oherwydd y tywydd garw a rhedeg allan o raeon, fel pob Sir arall yng Nghymru.

Mainc Dinorwig. Dywedodd Len Jones ei fod wedi gofyn i Wynedd osod mainc yn lle yr un a ddiflannodd o dros y ffordd i'r ysgol, gobeithir ei gosod y flwyddyn nesaf. Trefnir gosod y fainc arall yn yr Allt Ddu maes o law.

Gohebiaethau a materion eraill

Hen chwarel Fachell. Dywedodd Richard Ll. Jones bod y giât ar agor a wal yn beryglus yno - llythyr i Briffyrdd Gwynedd i gysylltu â'r perchennog.

Is-Ganghellor y Brifysgol. Cyfeiriodd y Cadeirydd at agwedd Awdurdod y Brifysgol nad oedd rhaid i'r Is-Ganghellor newydd fod yn Gymro Cymraeg. Cytunwyd bod hyn yn afresymol - llythyr i'r Awdurdod.

Cysgodfan bws Rhiwlas. Dywedodd Mrs Larsen bod

rhaid penderfynu ar leoliad y gysgodfan cyn yr 20ed o Fawrth. Ychwanegodd Hefin Williams mai ger yr hen bost y buasai'r lleoliad delfrydol ond bod y bysiau wedi penderfynu troi yn ôl yn is i lawr. Amlygwyd bod llawer o wahaniaeth barn yn y pentref, addawodd Elspeth Mitcheson ateb Cyngor Gwynedd.

Cysgodfannau Dinorwig. Awgrymodd Len Jones ofyn i Gyngor Gwynedd wneud arolwg o'r ddau yma.

A487 Caernarfon - Bontnewydd. Gwirfoddolodd Huw P. Hughes i ateb holiadur Gwynedd ar ran y Cyngor.

Trem Eilian. Cyfeiriodd Pat Jones at yr anhawster carthffosiaeth a gafwyd o ganlyniad i'r gwaith diweddar ar yr orsaf bwmpio. Nid oedd Cyngor Gwynedd na'r Bwrdd Dŵr yn barod i gynorthwyo gan bod y rhan fwyaf o'r tai Cyngor wedi eu gwerthu. Gorfu i berchennog un tŷ glirio *blockage* er bod y bibell i'r tai i gyd - llythyr i Wynedd yn gofyn beth yw eu cyfrifoldeb gan mai hwy werthodd y tai.

Cofeb W.J. Gruffudd. Dywedodd Huw P. Hughes bod angen sylw i'r gofeb ar Gorffwysfa, Bethel - llythyr i Wynedd.

Cofebion Rhyfel yn Giât Powys, Prifysgol Bangor. Dywedwyd bod rhai enwau wedi eu cadw mewn storfa - llythyr i'r Brifysgol.

Yr Heddlu. Rhannwyd copi o Cydbwyso'r Glas i bob aelod.

Biniau baw cŵn. Dywedodd Huw P. Hughes bod Mr Peter Simpson, Cyngor Gwynedd, yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau cynghorau cymuned am finiau. Penderfynwyd gofyn amdanynt yn:

Bethel - Tre Go Bach, ger y Post a dros y ffordd i'r ysgol.

Penisa'rwaun - Ffordd Bryn Hyfryd a Bryn Eglwys, Rhiwlas - ger yr hen Eglwys ac yn Lôn Castell.

Parc Padarn, Llanberis - mewn rhyw dri neu bedwar lleoliad.

Brynrefail - ger y Caban.

Mae angen bin ar gyfer pob cae chwarae, yr awgrym yw eu

gosod dros y ffordd i'r fynedfa ac arwydd perthnasol ar y fynedfa.

Caeau chwarae :- Clwt y Bont; Deiniolen x 2; Bethel; Rhiwlas; Brynrefail a Phenisa'rwaun.

Cynllunio

Fron Hywel, Pont Rhythallt. Cais na ddaeth i'r Cyngor Cymuned. Ail-leolir y fynedfa ychydig bellter i fyny o'r fynedfa bresennol. Mae'r is-bwyllgor wedi ymweld â'r safle ac yn argymhell caniatáu'r cais. Derbyniwyd tri cais arall.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Cae Gwydryn, Seion - codi sied amaethyddol.

Gorsaf Beran - arwydd wedi ei oleuo.

Tir ger Cefn Coch, Waen, Pentir - cais amlinellol i godi tŷ deulawr yn lle'r adeiladau amaethyddol presennol.

Nant Efa, Llanddeiniolen - adeiladu modurdy ac estyniadau i'r tŷ.

Cefn Coch, Waen Pentir - estyniad.

Bryn yr Adar, Gallt y Foel - estyniad a newidiadau.

Llwybrau

Cyflwynwyd polisiâu arfaethedig Gwynedd i gynnal a chadw, gorfodaeth a blaenoriaethu Gorchymyn Addasu a Gorchymynion llwybrau cyhoeddus. Dim ond ar gyfer llwybrau yng nghategoriâu 1a 2 y ceir addaliad am dorri gwair o hyn ymlaen.



Alun Ffred Jones

Aelod Cynulliad Arfon

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa yna cysylltwch ag o yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth

8 Stryd y Castell Caernarfon LL55 1SE
01286-672076

70 Stryd Fawr Bangor LL57 1NR

01248- 372948
alunffred.jones@cymru.gov.uk

POSH PAWS

TACLUSO CŴN
Busnes Newydd Lleol

PRYNHAWNIAU neu NOSWEITHIAU 4-10
DYDD SUL 8yb-4yb
Gwasanaeth Gasglu a Danfon

Tŷ'n Llan Vchaf, Llanddeiniolen
(01248) 671382 • 07935324193
ebost- juliaposhpaws@btinternet.com

ARVONIA

- Gwyliau Prydeinig a Chyfandirol.
- Rhaglen Triplau Dyddiol.
- Cerbydau moethus ar gael ar gyfer llogi preifat.
- Cerbyd 7 ac 14 sedd ar gael ar gyfer teithwyr maes awyr ac ar gyfer logi preifat.
- Adran teithiau grwp - yr holl drefniadau wedi'u gwneud: archebiadau gwesty a llong, teithiau, archebiadau theatra digwyddiadau

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA
Ffôn: 01286-675175 • Ffacs: 01286-671126
E-bost: info@arvonias.co.uk • Gwefan: www.arvonias.co.uk



Pêl-droed Cwpan Cymru dan 16 Rownd Go-Gynderfynol

Dydd Iau 25ain Chwefror 2010, daeth tîm pêl-droed Ysgol Gyfun Aberaeron i Lanrug i herio tîm pêl-droed bechgyn dan 16 Ysgol Brynrefail, mewn gêm go-gynderfynol Cwpan Cymru. Yr oedd yn haul yn disgleirio'n llachar a gwynt cryf yn chwythu, penderfynodd Brynrefail chwarae yn erbyn y gwynt a'r haul yn yr hanner gyntaf, gyda'r amcan o gadw'r sgôr yn gyfartal erbyn hanner amser.

Gyda'r gwynt ar eu cefnau Aberaeron cafodd y gorau o'r hanner cyntaf gyda dau gyfle gwynt yn cael eu methu. Roedd y taclo yn ffyrnig ac roedd Brynrefail yn ffodus iawn o gyrraedd hanner amser gyda'r gêm yn ddi-sgôr, gyda Carwyn Eddy, y gôl-geidwad wedi cadw'r tîm cartref yn y gêm.

Gwnaethpwyd newidiadau tactegol gan Mr Holland yn ystod yr egwyl, gyda Gruffydd John yn mynd i'r rheng flaen a Siôn Kyle i'r asgell chwith. O fewn deng munud fe weithiodd

y cyfnewid, Gerallt Jones a Jamie McDaid yn chwarae'r symudiad 1-2, yna Gerallt yn croesi'r bêl o'r chwith, gyda Gruffydd John yn y fan a'r lle i sgorio'n wych.

Er gwaethaf ymdrechion Aberaeron i drechu amddiffyn Brynrefail, yr oeddynt yn gadarn gyda Aaron Gwyn yn cael gêm wych i rwystro unrhyw ffordd drwodd. Yr oedd y pêl-droed gorau yn cael ei chwarae yn hanner Aberaeron, ac nid oedd yn fawr o sioc pan welwyd Jamie McDaid yn un ac un gyda'r gôl-geidwad, sgoriodd Jamie gan ddyblu mantais Brynrefail. Serch hynny cafodd Aberaeron sbel dda iawn yn y deg munud olaf, ond y sgôr terfynol oedd Brynrefail 2 Aberaeron 0. Heb os nac oni bai, Aaron Gwyn oedd chwaraewr gorau'r gêm.

Bydd Brynrefail yn chwarae eu hen elynion, Ysgol Emrys ap Iwan, Abergele, yn y gêm gynderfynol, nhw oedd y tîm a drechodd Brynrefail yn ffeinal Cwpan Eryri cyn y Nadolig.



Ysgoloriaethau Heddlu Gogledd Cymru

Rhian Elin George o Brynrefail yn derbyn sicc gan Gareth Pritchard, Dirprwy Brif Gwnstabl Gweithredol Heddlu Gogledd Cymru. Mae Rhian, cyn ddisgybl yn Ysgol Brynrefail, yn astudio Cymdeithaseg a Chymraeg ym

Mhrifysgol Bangor. Fel enillydd Ysgoloriaeth Heddlu Gogledd Cymru, bydd Rhian yn cael £3,000 dros dair blynedd ei chwrs gradd a bydd hefyd yn treulio chwe wythnos ar leoliad gyda Heddlu Gogledd Cymru.

LLWYDDIANT YSGOLORIAETHAU

Mae Prifysgol Bangor yn cynnig nifer o Ysgoloriaethau Mynediad bob blwyddyn er mwyn cynorthwyo myfyrwyr gyda'u hastudiaethau.



Cafwyd newyddion gwynt yn Ysgol Brynrefail ynglŷn â llwyddiant dau o'n disgyblion. Cawsom wybodaeth o Brifysgol Bangor bod Enfys Mai Roberts a Siôn Elwyn Hughes wedi bod yn llwyddiannus trwy ennill ysgoloriaethau ar gyfer eu hamser yn y Brifysgol ym Mangor.

SBOTOLAU AR: SIÔN ELWYN HUGHES

Y mae Siôn Elwyn Hughes, sy'n hanu o bentref Bethel, yn ddirprwy brif ddisgybl yn Ysgol Brynrefail ac yn gerddor o fri. Mae Siôn yn aelod o fand pres Deiniolen, Band Pres Gwynedd a Môn, a Band Pres Ieuenctid Cymru. Bu gohebydd yr ysgol yn dal i fyny gyda'i yrfa gerddorol hyd yn hyn.

Pa offeryn wyt ti'n chwarae, a sut bu i ti ddechrau?

Rwy'n chwarae'r cornet ac wedi bod yn mwynhau gwneud hynny ers yn ddisgybl 8 oed yn Ysgol Bethel pryd y cefais wersi gan Ms Margaret Jones.

Yr wyt yn aelod o fand pres Deiniolen. Pa achlysuron sydd wedi dy ysgogi?

Y mae band pres Deiniolen yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn flynyddol, yn ogystal â Chystadlcuaeth Bandiau Pres Cymru sy'n cael ei chynnal yn Abertawe pob mis Mawrth.

Eich cof gorau gydag un o'r bandiau pres?

Heb os nac oni bai, chwarae yn yr Albert Hall yn Llundain gyda band pres Gwynedd a Môn. Mae'r Albert Hall yn adeilad mor enwog. Y mae cymaint o enwogion Cymru wedi cynnal cyngherddau yno, Bryn Terfel, Tom Jones a FI!!!

Sut wyt ti'n gweld dy ddyfodol cerddorol?

Hobi, fan bellaf, yw chwarae'r cornet ac nid wyf yn gweld fy hun yn gwneud gyrfa o'i chwarae. Yn hytrach cadw'r gerddoriaeth fel peth i ymlacio o holl bwysau gwaith.

A'ch cam nesaf ym myd addysg?



Rwy'n gobeithio mynychu Prifysgol Bangor. Gobeithiaf astudio Cerddoriaeth a Chymraeg ar y cyd neu Cymraeg yn unigol cyn canolbwyntio ar astudiaethau Cymraeg ac yn agored, ar hyn o bryd, i unrhyw yrfa.

Llwyddiant Her Beirianneg

Llongyfarchiadau i Dion Williams, sy'n astudio Ffiseg ym mlwyddyn 12.

Bu Dion yn aelod o'r tîm yn buddugol mewn Her Beirianneg ym Mhrifysgol Cymru Bangor ym mis Hydref 2009. Roedd dros gant o fyfyrwyr chweched dosbarth gogledd Cymru yn bresennol, ond Tim Dion a ddacth i'r brig.

Mae pob aelod o'r tîm yn cael rhannu'r Gwpan dros y flwyddyn, a chyfle Ysgol Brynrefail yw hi am y tri mis nesa - Llongyfarchiadau!!!!

LLANRUG

Eryl Roberts. 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DIOLCHIADAU. Dymuna June, Rhandir Mwyn, Llandwrog, ddiolch yn ddiffuant am bob caredigrwydd a dderbyniodd yn ddiweddar yn ystod triniaeth yn Ysbyty Gwynedd a Glan Clwyd, fel cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau ac anrhegion. Diolch yn fawr iawn.

Hefyd, fe ddymuna Eileen, 60 Glanffynnon, ddiolch yn fawr iawn i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y gofal, y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd tra yn yr ysbyty yn ddiweddar ac ar ôl dod adref. Diolch o galon i bawb.

SEFYDLIAD COFFA. Enillwyr Clwb Cant mis Chwefror oedd: £20: Mrs E. Jones, 4 Hafan Elan; £7: Mrs G. Roberts, Hafle; £5: M. Parry, Wenllys.

REIDIO BEIC NODDEDIG. Bydd Malcolm Pitts ac Alwen Leadbetter, unwaith eto eleni, yn reidio beic am 50 milltir a nofio milltir a chwarter ym mis Ebrill i godi arian at Ward Alaw er cof am ei wraig, Yvonne, ac i Feddygfa Llanberis gyda diolch am ofal i'w thad.

Mae ffurflenni noddï ar gael yn Londis, Storfa a Siop Trin Gwallt Elaine. Diolch yn fawr ymlaen llaw.

PROFEDIGAETHAU. Trist iawn oedd y newydd am farwolaeth sydyn iawn Merfyn Roberts (Benô) Caeathro, brawd annwyl iawn i Morfydd, Rhes Minffordd. Anfonwn ein cydymdeimlad diffuant atoch i gyd fel teulu.

Bu farw Mrs Helena Munro, Cynan, Ffordd yr Orsaf, yn 95 mlwydd oed. Cydymdeimlwn yn ddiffuant iawn â'r teulu yma yn ogystal, sef ei dau fab, William a James, a'i merch, Helen, a'r plant.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau calonnog i Huw a Lisa ar enedigaeth merch fach, Tesni. Chwaer newydd i Shannon, Alaw a Cari. Mae taid a nain, Dafydd a Lorna, Crawia, a theulu Deiniolen wedi gwirioni.

Cafodd Ffion (Minffordd) a Bedwyr ferch fach sydd yn chwaer newydd arbennig i Seth a wyres arall i John a Menna Williams. Llongyfarchiadau mawr a chroeso i Esther.

Mab bach, Eban, ddaeth i Math a Siwan, Pant Bryngwyn, Tan y Coed, brawd annwyl i Betsan ac ŵyr bach i Siôn a Nan Humphreys a theulu Ginsberg, Bethel. Croeso mawr iddo a llongyfarchiadau i chwi i gyd.

DIOLCHIADAU. Fe ddymuna Wendy Jones, 20 Talybont, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gefnogaeth a gafodd am y misoedd diwethaf tra yn yr ysbyty ac adref. Mae yn gwella erbyn hyn. Diolch yn fawr.

BRYSIWCH WELLA. Da yw deall fod Mrs Gwennie Morris, Clydfan, Ffordd Glanmoelyn, yn gwella ar ôl derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Cofion atoch a hefyd i bawb sy ddim yn dda eu iechyd.

PLAID CYMRU. Clwb Cant - Enillwyr Mis Mawrth oedd: 1. Selwyn Lloyd; 2. Geraint Jones. **CAPEL Y RHOS.** Oedfaon mis Ebrill

4: Oedfa'r Pasg gyda'r Parch.

Marcus Robinson, y gweinidog

11: Parch. John Owen

18: Y Gweinidog

25: Parch. Pryderi Llwyd Jones

APÊL HAITI. Diolch i bawb gyfrannodd i'r apêl hon. Gwnaed casgliad ar ddau Sul ac fe baratowyd paned a chacen gan aelodau'r Ysgol Sul ar fore Sul arall. Gwnaed casgliad teilwng iawn o £556. Diolch



Patsy Cropper yn cyflwyno tancard arian i Alan Vincent Owen i'w anrhydeddu fel aelod oes o Bwyllgor Clwb Pêl-droed Llanrug.



Plant yr Ysgol Sul yn cyflwyno siec i Anna Jane Evans o Gymorth Cristnogol Cymru

hefyd i'r merched a gymrodd ran yng nghyfarfod Gweddi Byd eang y chwiorydd. Eleni merched Cristnogol y Camerwn oedd yn gyfrifol am baratoi y gwasanaeth. Cafwyd awr fendithiol iawn yng nghwmni ein gilydd yn yr oedfa a mwynhawyd paned a sgwrs yn dilyn hynny. Casglwyd £58 tuag at achos y Cristnogion yng Nghamerwn.

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

**LLANRUG
677362**

neu symudol

**07979
620996**

- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol



J.M. JONES
a'i Feibion
LLANRUG

Gwaith Coffaol

Ffon Gwaith
01286 672898

Cartref
01248 679089

Y Sgwâr, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4AA



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

**FFENESTRI · DRYSAU · CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL**

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

**HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG**



(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



MERCHED Y WAWR. Mawrth 9fed, aeth llond bws o aelodau i ddatlu Gŵyl Ein Nawddsant yn Y Daflod, Y Fic, Llithfaen. Roedd dewis o ddau gwrs neu dri ac yn amlwg roedd pawb wedi'u plesio gyda'r arlwy ac yn gwerthfawrogi'r dewisiadau Cymreig ar gyfer yr achlysur. Diolchwyd i Hefina a Tomos am y croeso twymgalon a'r pryd amheuthun.

Yna cafwyd amser i ymlacio a mwynhau eitemau Cymreig eu naws gan aelodau Teulu'r Hafod, sef Dafydd Roberts a'i efaill, Ann Roberts, a merch Dafydd, sef Elen, sy'n fyfyrwr yng Ngholeg Meirion Dwyfor. Y gyfeilyddes oedd Rhian Jones, Efailnewydd.

Mwynhawyd amrywiaeth o ddatganiadau gyda Cymru Fach, cân werin 'Mil Harddach Wyt', deuawd gan Dafydd ac Ann - Benedictus, Robat Arwyn. A ninnau yn dathlu Gŵyl Ddewi, beth yn well na datganiad gwladgarol 'Yr Ornest' gan Dafydd. Gwir y geiriau 'Does unman yn debyg i gartref' - ac roedd pawb ohonom wedi mwynhau datganiad Elen o 'Cartref'.

Gwerthfawrogwyd cân o sioe gerdd 'Serch a dry y byd yn gân' gan Ann, enillydd cenedlaethol, gyda llaw. Mae geiriau'r Anthem Geltaidd yn sicr yn ein clymu ni'r Celtiaid a mwynhad pur oedd clywed Dafydd yn canu'r anthem mor angerddol, yn arbennig y geiriau 'Tros wareiddiad a thros heddych, Trown ein wyneb tua'r wawr.'

Mae'r gân o'r sioe gerdd 'Ann', 'Wele'n sefyll rhwng y myrtwydd' yn gyrru ias i lawr cefn rhywun a dyna a wnaeth Elen i bob un ohonom wrth ganu'r emyn hwn gan Ann

Griffiths. Ac i ddilyn cafwyd Triawd yn ein swyno gyda'r gân 'Cwsgr Osian Cwsgr' gan roi clo arbennig i noson arbennig.

Diolchwyd i'r teulu talentog am ein swyno a'n cyfareddu gan Margaret, y Llywydd. Roedd hi'n hynod braf gweld Ann (Humphreys, gynt) - gwraig Dafydd a mam Elen, wedi troi i fewn i'n gweld. Do, bu Ann yn aelod gyda changen Llanrug am gyfnod pan oedd yn dysgu yn Ysgol Llanrug, felly bu'n noson o hel atgofion i Ann hefyd.

Diolchodd Margaret i Eryl a Margaret Christian am y trefniadau trylwyr. Dymunir cydnabod hefyd haelioni'r Loteri Arian i Bawb, drwy dderbyn grant o £1,000. Mae'r gangen wedi gallu llogi bysiau i fynd i Neuadd Dwyfor, Pwllheli, i weld 'Y Gofalwr' ac i deithio i Lithfaen a chyfrannu at gost teithio Tîm Bowlio Deg yn Glasfryn, Pwllheli. Llongyfarchiadau i Dîm Llanrug a ddaeth yn drydydd allan o saith tîm.

Diolch i Nan, Meryl, Meirwen, Julie, Enid a Mair Parry am gynrychioli'r gangen. Deallir ei bod wedi bod yn noson hwyliog dros ben. Atgoffir pawb fod Noson Chwaraeon ym Mhen-y-groes nos Wener, 23 Ebrill a thrip i Aintree i'r Ffair Grefftau ar 24 Ebrill. Cynhelir Gŵyl y Pum Rhanbarth yn Ysgol Friars, Bangor, ar ddydd Sadwrn, 8 Mai.

DALIER SYLW. Bydd cyfarfod Ebrill wythnos yn hwyrach, sef 20 Ebrill a bydd Cyfarfod Mai yn cychwyn am 7.00 o'r gloch, gyda'r Cyfarfod Blynnyddol a chwmni Mari Emllyn. Mwynhewch wyliau'r Pasg a gwelwn chi ar 20 Ebrill.

CADW'N FYWIOG - beth amdani? Cynhelir 6 sesiwn o hwyl yng Nghanolfan Hamdden Caernarfon yn dechrau ar Nos Lun, 12fed o Ebrill am 7.30 y.h. Os yn aelod o fudiad Merched y Wawr y gôst fydd £1 y sesiwn, ac os nad yn aelod bydd y gôst yn £2. Cynigir badminton, pêl rwyd, symud y corff, acwa aerobeg a llawer mwy !!

Am fwy o fanylion, ffoniwch Nia Llywelyn ar 07770623962. Neu ysgrifennwch ati yn Awelfa, Cwmlinau, Machynlleth, Powys SY20 9NU **LLONGYFARCHIADAU** i Elaine Alaw Morgan, Dolwen, Ffordd yr Orsaf am gael gradd 1mewn Marchogaeth. Gyda chariad mawr oddiwrth Mam, Dad,, Natalie a Martin

SIOP YN EHANGU



Mae hysbyseb 'Pen Cigydd y Fro' wedi ymddangos ym mhob rhifyn o'r "Eco" o'r cychwyn cyntaf. Bellach, Bryn ac Angela Williams sy'n rhedeg siop Wavell's yn Llanrug, ac erbyn y daw'r rhifyn hwn drwy eich drws, bydd y siop wedi ail-agor ar ei newydd wêdd. Nid yn aml mae siopau yn ehangu yn dilyn y dirwasgiad economaidd diweddar, ond dyna sy'n digwydd yn Llanrug. Mae'r siop cigydd bellach yn cynnig adran delicatessen hefyd gydag amrywiaeth o fwydydd at flas pawb. Piciwch yno: mae lle ar gael i fwynhau paned hefyd. Bydd yr agoriad swyddogol yn digwydd maes o law, a cheir adroddiad llawnach bryd hynny. Pob dymuniad da i'r fenter newydd.

DINORWIG

Marian Jones. Ffôn: (01286) 870291

DAMWAIN. Roedd yn ddrwg gennym ddeall fod Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, wedi syrthio yn ei chartref ac wedi torri ei braich. Mrs Jones, yn eich oed chi rhaid rhoi'r gorau i ddringo i ben cadeiriau. Mae sefyll ar y llawr yn llawer saffach. Gobeithio nad oes gennych lawer o boen ac y byddwch yn gwella yn fuan. Cofion yr ardal atoch. **CYFARFOD PREGETHU.** Cynhelir cyfarfod pregethu

Eglwys MC Cefn y Waun yn Festri Ebenezer ar Sul y Pasg, sef 4ydd o Ebrill am 10.00 y bore a 5.00 yr hwyr. Pregethir gan y cennad gwadd, sef y Parch Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan. Croeso cynnes i bawb i'r ddwy oedfa.

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol
2 Stryd y Plas, Caernarfon
(01286) 672727

8 Llys Onnen, Ffordd y Llyn,
Parc Menai, Bangor
(01248) 674460

Dewch atom am gyngor ynghylch yswiriant a materion ariannol



Awdurdodir a rheolir gan yr
Awdurdod Gwasanaethau Ariannol

WAVELL'S

Bryn ac Angela Williams

London House, LLANRUG

Ffôn:

(01286) 673574

PEN CIGYDDION Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus,
Selsig cartref
Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewglst

**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**



**GERAINT OWEN
CARPEDI**

CARPEDI • VINYLs • TEILs

CANOEDD O BATRYMAU I DDEWIS

A RHAI MEWN STOCK

Cil y Mynydd Waunfawr Gwynedd

A Uned 5 Gwyrfaï Mill Bontnewydd

(01286)650552 Mob. 07712779475

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

54 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH GOLCHI A SMYDDIO

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

APÊL EISTEDDFOD YR URDD 2012. Cynhaliwyd cyfarfod at Apêl Eisteddfod yr Urdd 2012 yn y ganolfan nos Lun, Mawrth 22. Cafwyd gwirfoddolwyr i arwain yr ymgyrch yn y pentref: Cadeirydd – Iola Llywelyn; Is-gadeirydd – Alun Ellis; Ysgrifennydd – Nia Llwyd; Is-ysgrifennydd – Olwen Meredydd; Trysorydd – i'w gadarnhau; Is-drysorydd – Rob Jones.

Diolch iddynt am fod mor barod i ymgymryd â'r gwaith. Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal yn y Ganolfan Nos Fercher Ebrill 21 am 7 o'r gloch. Taer erfynnir am gefnogaeth trigolion y pentref i ddod â'u syniadau am weithgareddau amrywiol i godi arian.

EGLWYS Y WAUN. Gwasanaethau'r Sul yn ystod mis Ebrill a Mai:

4: Parch Olwen Williams

11: Y Gweinidog, Gwenda Richards

18: Mr Richard Lloyd-Jones

25: Mr Dafydd Iwan

Mai 2: Mr Alan Wyn Roberts CLWB 300. Enillwyr y Clwb am fis Chwefror oedd: £30: Mr Huw Ynyr, Dolwar Fach; £20: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; £10: Mrs H. Williams, 8 Croes y Waun.

SEFYDLIAD Y MERCHED. I ddathlu Gŵyl Ddewi ar Fawrth Iaf, croesawodd Catherine Jones, y Llywydd, John Gwynedd, ein gŵr gwadd am y prynhawn. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo. Ynghyd â sleidiau, o'i daith i'r Himalayas, a'r sleidiau yn dangos tloedi mawr ar un llaw a'r moethusrwydd anhygoel mewn adeiladau fel y Taj Mahal yn yr India. Roedd pawb wedi mwynhau yn fawr. Diolchodd Hilda i John am bnawn difyr iawn.

Ar ôl y sgwrs cafwyd te

hyfryd wedi'i baratoi gan yr aelodau. Enillydd y raffl, wedi ei rhoi gan Mair, oedd Catherine.

Carwn dynnu sylw at gamgymeriad yn yr *Eco* diwethaf (nid bai yr golygyddion chwaith, ond fy mai i). Y prynhawn cyntaf o'r mis yr ydym yn cyfarfod nid yr ail fel yr ysgrifennais o'r blaen. Croeso cynnes i aelodau newydd ymuno â ni.

Ddydd Sadwrn, 20fed o Fawrth, mae 9 o'r aelodau yn mynd i Westy San Siôr yn Llandudno i ginio i ddathlu pen-blwydd y Ffederasiwn yn 90.

GRWP LLWYBRAU GWYRFAL. Ar ôl llafur caled yn hyrwyddo cerdded a merlota a beicio mae gwirfoddolwyr Grŵp Llwybrau Gwyrfa, o dan gadeiryddiaeth Duncan Brown, yn barod i lawnsio'r llwybrau cerdded sydd wedi'u dynodi ar hyd y daith o amgylch pentref Waunfawr. Er mwyn annog cerddwyr i gadw'r llwybrau'n daclus mae'r Grŵp wedi cytuno i godi sbwriel a phethau eraill sy'n ddolur llygad ar nos Fercher, 21 Ebrill. Gofynnir i wirfoddolwyr ymuno ag aelodau'r Pwyllgor y tu allan i Antur Waunfawr am 5.00 yr hwyr. Dylid gwisgo sgidiau a dillad addas ar gyfer y gwaith a'r tywydd. Bydd croeso mawr i bawb.

GENEDIGAETHAU.

Llongyfarchwn Tammy a Warren, Stad Dôl Erddi, ar enedigaeth mab bychan, Tyrasa, ŵyr bach i Garry a Wendy James, Dôl Erddi a gor-ŵyr i Mrs Barbara Griffiths, Stad Tref Eilian.

Ganwyd merch fach, Alaw Mai, i Cara a Gerald, chwaer fach i Celt, Owain a Jac, wyres i Garry a Wendy, Dôl Erddi ac i Dick a Gwendoline Rowlands, Bryn Golau, a gor-wyres i Barbara.

Llongyfarchiadau hefyd i Ffion

ac Alun Ellis, Bryn Gwyrfa, ar enedigaeth merch fach, Llio Grug, chwaer i Seren, wyres fach i Raymond ac Ann Edwards, Melin y Wig a gor-wyres i Mrs Margaret Owen, Bryn Gwylan.

Daeth Marian Williams, 18 Stad Tŷ Hen yn nain i Gruffydd Llywelyn, mab bach i Marian a'i mab, Meirion, brawd bach newydd i Dion, Tomas ac Elis. Ganwyd gor-wyres fach, Jessica, i Mrs Sheila Roberts, Llwyn Celyn, merch i'w hŵyr Gwyn a'i bartner Elizabeth yn Llanbedrog.

DYWEDDIAD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Siôn Emyr a Nia, Dôl Gwyrfa, Stad Bod Hyfryd, ar eu dyweddïad. Croeso iddynt i'r pentref. Mae'n braf gweld pobl ifanc yn ymgartrefu yma. Rydym bob amser yn falch o groesawu plant y pentref sy'n dod yn ôl i fyw yma.

CHWARAEON.

Llongyfarchiadau i Cai Owen Pritchard, Min y Grug, sy'n bedair ar ddeg mlwydd oed, ar gael ei ddewis i dîm Bowlïo dan un ar hugain oed Cymru yn ddiweddar. Mae'n braf gweld pobl ifanc yn llwyddo yn eu gwahanol ddiddordebau. Da iawn chdi, Cai.

EISTEDDFOD YR URDD.

Llongyfarchiadau i Anya Price, Elin Lloyd Griffith a Sioned Fôn Jones. Mae'r tair yn aelodau o dîm Dawnsio Disgo dan bedair ar bymtheg oed ysgol Brynrefail fu'n llwyddiannus yn yr Eisteddfod Sir. Byddant yn awr yn cynrychioli Sir Eryri yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Aberaeron ddechrau mis Mehefin.

PEN-BLWYDD PRIODAS.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dick a Gwendoline Rowlands, 5 Bryn Golau fu'n dathlu cyrraedd eu Priodas Aur yn ystod mis Mawrth.

ADREF O'R YSBYTY. Croeso adref i Mrs Janet Smith, Rhoslan, wedi iddi gael llawdriniaeth i'w phen-glin.

Croeso adref hefyd i Mrs

Mary Jones, Llwyn Afon, wedi iddi hithau gael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

Gorfu i Llywela Morris, Stad Tref Eilian, hithau dreulio cyfnod yn yr ysbyty. Cymerwch bob gofal ohonoch eich hunain, anfonwn ein cofion atoch gan ddymuno gwellhad buan ichi.

CYDYMDEIMLO. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at Mr a Mrs Wilff Jones, Treflys, wedi iddynt gael profedigaeth o golli chwaer Mrs Jones yn ddiweddar.

ARHOLIADAU. Mae'n gas gen i atgoffa ein pobl ifanc sydd yn wynebu arholiadau pwysig mewn ysgol a choleg yn ystod yr wythnosau nesaf, bod yr amser yn prysur agosau. Dymunwn y gorau i bob un ohonoch, ac wedyn cewch amser i ymlacio a mwynhau.

YR YSGOL

Mae'r wythnosau yn gwibio heibio ac o fewn yr wythnos bydd yn Wyliau Pasg. Hoffem hysbysu Pentrefwyr Waunfawr y cynhelir Noson Bingo'r Pasg yn y Ganolfan nos Lun Mawrth y 29ain am 6:30 o'r gloch. Bydd parêd hetiau Pasg gan y plant/gemau bingo/cŵn poeth/coffi a the ar werth. Dewch efallai yr enillwch Wy Pasg!

Yn ystod yr hanner tymor diwethaf:

Dathlwyd Gŵyl Ddewi ar y cyntaf o Fawrth gyda phawb wedi gwisgo crysau coch timau pêl droed neu rygbi Cymru neu yn y wisg Draddodiadol Gymreig. Yn ystod y diwrnod cafwyd Gwasanaeth arbennig i ddathlu'r diwrnod, cafwyd gêm bingo/lliwio gwallt a pheintio wynebau/cawl cennin/cacenni cri/diod coch/ynghyd â thwrnament rygbi a phêl rwyd. Llwyddwyd i godi £200 ar y diwrnod. Bydd y Cyngor Ysgol ym maes o law yn penderfynu beth i brynu gyda'r arian ar gyfer y dosbarthiadau.

Twnnel Gwiail. Rydym yn ffodus iawn fel ysgol i gael rhieni mor frwdfrydig sy'n fodlon rhoi o'u hamser i helpu gyda gerddi'r

Siop Waunfawr

(Howard a Debbie)

**Pay Point, Papur Newydd,
Cardiau Cymraeg, Cylchgronau,
Bwydydd, Nwryddau Tŷ**

Ffôn: (01286) 650834

Diolch am gefnogi'r fenter newydd

ar agor 7.30 – 6.30

8.00 – 6.00 (Sadwrn)

9.00 – 12.00 (Sul)

e-bost: siopwaunfawr@live.com



WAUNFAWR

• Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant

• Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol

• Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go iawn

Ffôn: (01286) 650218



Gweithdy Techniquet

ysgol. Bellach mae gennym 3 gwely llysiau, sy'n ein galluogi i gael llysiau fel tatws/cennin/riwbob/pys/pwmpen/perlysiau a ffrwythau fel mafon yn dymhorol. Mae Anti Howela ein cogyddes, yn eu defnyddio yn y gegin a chaiff pob plentyn trwy'r ysgol gyfle i flasu'r gwahanol lysiau mewn cawl a phwddin ecsotig fel riwbob cwli.

Ein prosiect y tymor hwn oedd plannu twnnel gwaiail yn y cae. Wel i fod yn hollol gywir, mae'n dwnnel gwaiail ac iglw ynghlwm. Cafwyd diwrnod gwyh yn creu'r cyfan a mawr yw ein diolch i'r rhieni a gynorthwyodd gyda'r prosiect.

Dymunwn Basg hapus i bawb. Bydd yr ysgol yn cau ddydd Iau, Ebrill 1af, ac yn ail

agor i ddisgyblion ar Ebrill 20fed.

Gweithdy Defnyddiau Techniquet. Ddydd Iau Mawrth y 4ydd cafodd ddosbarthiadau'r Adran Iau sioe a gweithdy ar Ddefnyddiau gan Gwmni Techniquet. Cawsant sesiynau addysgol ardderchog - mae'r plant wrth eu boddau gyda'r arbrogion a wneir yn y sioeau.

Ymweliad y Cyfnod Sylfaen a'r Milfeddygfa yng Nghaernarfon. Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen fynd i ymweld â'r Filfeddygfa yng Nghaernarfon fel rhan o'u thema ar Anifeiliaid. Bu'r plant o gwmpas y filfeddygfa yn gweld yr anifeiliaid a'r pwll nofio i anifeiliaid. Roedd y plant wedi mwynhau yn fawr. Diolch yn fawr iawn i Hubbard a Williams am y croeso



Yn y Filfeddygfa



Trin y gwely llysiau



Y twnel gwaiail



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

**Gwasanaethau
Garddio
Gorwel**

**01286 650761
07773 020424**

*Planu Llwyni
Planhigion a Llysiau
Tori Gwair a Gwrychoedd
Tocio Palu a Chwynnu
Tacluso a Gofal Tymhorol
Gwella Safon Tir
Glanhau Llwybrau, Tywarchu
CWBL YSWIRIEDIG*

**Gwesty
Dolbadarn**
LLANBERIS Ffôn: 870277



- Priodasau • Dathliadau
- Achlysuron Arbennig • Cynadleddau
- Pwyllgorau • Bwydlen Bar
- Cinio Dydd Sul

**THE LEGACY
ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS**

wrth droed yr Wyddfa

Ffôn: 0870 832 9903

DEINIOLEN

Mrs Nia Gruffudd. Ffôn: (872133)

YSGOL DOLBADARN

Eisteddfod yr Ysgol. Cynhaliwyd Eisteddfod yr ysgol ar Fawrth 1af ac yn sicr dyma ddiwrnod llwyddiannus a phoblogaidd iawn yng nghalendr yr ysgol. Bu cystadlu brwd trwy'r dydd pan welwyd plant yn canu, llefaru, a chanu mewn partïon. Bu'r plant hefyd yn gwneud llun i'r gystadleuaeth celf. Diolch i Mrs Iona Ceiriog am ei gwaith yn beirniadu.

Diwrnod y Llyfr. Cafwyd diwrnod y llyfr hwyliog unwaith eto a disgo gyda'r nos. Daeth y plant i'r ysgol wedi gwisgo fel cymeriad o lyfr a bu pawb yn dawnsio trwy'r nos.

Pobwch i Bobath. Brynhawn dydd Gwener y 5ed o Fawrth cynhaliodd Blwyddyn 6 de parti i gasglu arian i Ganolfan Bobath. Mae'r ganolfan yn helpu plant sydd gyda Cerebral Palsy. Roedd pawb o flwyddyn 6 yn cael gwahodd aelod o'r teulu neu gymdogion i'r te parti. Roedd blwyddyn 6 wedi bod yn brysur iawn brynhawn dydd Iau a bore dydd Gwener yn paratoi cacenni, y neuadd a'r raffl. Cafodd y gwestai glywed parti recorders yr Urdd yn chwarae eu darnau. Canodd blwyddyn 6 gân yr oeddynt wedi ei dysgu ar gyfer yr Urdd.

Darllenodd Megan a Lois ddarn am hanes yr elusen a diolchodd Mr Wynne i'r gwestai am ddod.

Erbyn diwedd y prynhawn casglwyd £104 a chafodd pawb hwyl.

REBECCA ELLIS (Blwyddyn 6) *Eisteddfod yr Urdd.* Llongyfarchiadau mawr i'r parti recorders ar ddod yn ail yn yr Eisteddfod Sir yn ddiweddar. Bu'r parti yn brysur iawn yn ymarfer am wythnosau ac mae'r ysgol yn falch iawn o'ch llwyddiant, genod. Diolch yn arbennig i Miss Anne-Marie Edwards a Mrs Manon Davies am roi eu hamser i'w hyfforddi. *Gŵyl Athletau Canolfan Hamdden Arfon.* Daeth mwy o lwyddiant i ran yr ysgol yn ddiweddar yn yr Wyl Athletau brynhawn Dydd Mawrth, Mawrth y 16eg. Cafodd tîm blwyddyn 6 y wobwr gyntaf ac maent yn mynd ymlaen i rownd derfynol 'Athletau Sporthall Gwynedd' ym Mhorthmadog. Bu tîm blwyddyn 4 a 5 hefyd yn hynod llwyddiannus a chipio'r drydedd wobwr. Da iawn wir ac ymlaen i'r Gemau Olympaidd rŵan!

DIOLCH. Dymuna Jean Roberts, 5 Dôl Eilian, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tra y bu yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DIOLCH. Dymuna teulu y diweddar Appy Jones, 14 Stryd Turner, ddiolch o galon i bawb

am bob cydymdeimlad, caredigrwydd a haelioni a ddangoswyd tuag atynt yn ystod eu profedigaeth ddiweddar.

Byddai fy mam wedi bod yn hynod o falch o gymdogaeth pobl Llanbêr yn ystod y cyfnod hwn. Bydd ein colled ni fel teulu yn fawr ar ei hôl.

DIOLCH. Dymuna Nellie Pritchard, 3 Ffordd Padarn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a'i chymdogion am y cardiau, anrhegion a dymuniadau da a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 90 oed. Diolch yn fawr.

CYMDEITHAS UNDEBOL. Bu'r Gymdeithas yn ymweld â Niwbwrch, Ynys Môn, ar ddydd Mawrth y 9fed o Fawrth. Cawsom ein tywys o amgylch eglwys hynafol Sant Pedr a chael ei hanes a'i chysylltiad â Llys Rhosyr, sef Llys y Tywysogion, gerllaw. Aethom ymlaen wedyn i Neuadd Pritchard Jones yn y pentref, a chael hanes bywyd y person â'i cododd a'r gwaith adnewyddu sydd wedi bod yn mynd ymlaen yno. Yn dilyn hyn oll, cawsom bryd o fwyd gwerth chweil yn y Neuadd.

Diolch iddynt i gyd am wneud yr ymweliad mor ddiddorol.

Ar Ebrill y 13eg byddwn yn cael ein Cinio Blyneddol yng Ngwesty Dolbadarn am 6.45-7yh, y bwydlenni a'r arian taladwy i Dilys Mai Roberts erbyn Ebrill y 4ydd, os gwelwch yn dda.

DIOLCH. Dymuna Mair Roberts (Coed) ddiolch o waelod calon i'w theulu, cymdogion a'i holl ffrindiau am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei phen-blwydd arbennig.

DIOLCH. Dymuna Awel Hughes, 60 Maes Padarn, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a galwadau a dderbyniodd yn dilyn ei llawdriniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.

DIOLCHIADAU. Dymuna Katherin a Kevin Hewitt, Joyce, Sheila Foulkes a theulu'r ddiweddar Elizabeth Glenda ddiolch o waelod calon am bob arwydd o gydymdeimlad, ymweliadau, galwadau ffôn, yr holl gardiau a rhoddion a dderbyniwyd ganddynt tuag at Gartref Penisarwaen. Diolch i'r Parchedig R Townsend a Mr Derek Jones am arwain yr angladd ac i Iwan Williams am ei wasanaeth wrth yr organ. Diolch hefyd i Gwynfor a Jane, E.W. Pritchard, am drefniadaeth effeithiol yr angladd. Diolch yn fawr i bawb.

MUNRO. Dymuna William, James, Helen a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a

estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam, nain a hen-nain arbennig. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau i'r tŷ a'r rhoddion hael tuag at Tŷ Gobaith a Meddygfa Llanrug. Diolch i Dr Eysyllt Llwyd a Staff Meddygfa Llanrug am eu gofal. Diolch i'r Parchedigion Lloyd Jones,

Robert Townsend a Gwynfor Williams am eu gwasanaeth ac i'r organydd, Michael Davies. Diolch arbennig i Katie ac Eilwen ac i Dylan Griffith, Cyfarwyddwr Angladdau, am ei gymorth a'i drefniadau trylwyr. Diolch bawb.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

DIOLCH. Dymuna Jennie A. Roberts, 2 Ffrwd Madog, ddiolch i'w dwy ferch Eleri a Bethan, a Simon am eu caredigrwydd yn ystod ei anhwylder diweddar. Carai ddiolch hefyd am bob cymwynas gan aelodau o'r teulu a ffrindiau.

PRIODAS AUR. Estynnwn ein llongyfarchiadau i Ken a Pat Jones, Cac Coch, ar ddathlu eu Priodas Aur ar Fawrth 19eg.

YR EGLWYS

BRESBYTERAIDD

Oedfaon Ebrill

4: Sul y Pasg am 2.00: Parch Olwen Williams, Tudweiliog Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd

11 am 2.00: Parch Gerallt Lloyd Evans, Llangristiolus
18 am 5.30: Mr J.O. Roberts, Bethesda

25 am 5.30: Parch Harri Owain Jones, Llanfairpwll
Y GYMDEITHAS. Cynhelir cyfarfod cyntaf o'r Gymdeithas am 2010 yn y Caban nos Iau, Ebrill 22ain am 7 o'r gloch. Disgwylir Dilwyn Gray Williams o Lanberis i roi sgwrs dan y testun 'Pensaer y Pontydd'.

SEFDLIAD Y MERCHED. Nos Lun Mawrth 1af, mwynhawyd y cinio Gŵyl Dewi blyneddol yng ngwesty'r Bull, Pentraeth. Cafwyd cwis hwyliog i gloi'r noson dan ofal Gwen Edwards.

Darren Jones	
Contractiwr Teilsio	
CEGINAU	
YSTAFELLOEDD	
YMOLCHI	
A LLORIAU	
9 Rhos Rug Llanrug Caernarfon	
(01286) 669090	
Mobile-07894818783	

**Blodau
Racca**

(ALWYN A SARAH JONES)

Ffôn: **870605**

- Basgedi Planhigion
- Planhigion Gardd
- Basgedi Crog
- Hefyd, Compost ar werth

RHODD O'R GALON
YW BLODAU

H.E. HUGHES
A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

Ffôn: 870444



- ★ Gwerthwr Glo
 - ★ Olew Gwres Canolog
- i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

DYMUNA Carol, Gwenda, Delyth ac Elaine ddiolch i deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau, ymweliadau, galwadau ffôn a phob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli Mam mor annwyl.

Diolch hefyd i Mr Derek Jones a'r Parchedig R. Townsend am eu gwasanaeth ar ddiwrnod yr angladd ac hefyd i Dylan Griffith, Penisarwaun am y trefniadau trylwyr a pharchus. **DYMUNA** Ian, Gwyn, Bethan, Claire a Jake, teulu y ddiweddar Marian (a'r diweddar John Andro) Bryn Awelon, Rhiwen, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llu cardiau, galwadau ffôn, ymweliadau i'r tŷ a'r rhoddion hael tuag at Ward Cybi, Ysbyty Gwynedd. Diolch i'r nyrsys a'r doctoriaid am eu gofal arbennig, i'r Parchedig John Pritchard am ei eiriau doeth a charedig yn y gwasanaeth ar ddydd yr angladd. Diolch i'r Ymgymwrwr Dylan Griffith am ei waith arbennig, ei gymorth a'i gefnogaeth diflino yn ystod ein profedigaeth.

DYMUNA Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, ddiolch yn fawr

NOSON CAWL A CHÂN. Nos Lun, Mawrth y 1af, cynhaliodd Pwyllgor Apêl Deiniolen Eisteddfod Eryri 2012 ei weithgaredd codi arian cyntaf, sef Noson o gawl a chân yn Nhŷ Elidir.

Cychwynnwyd y noson gyda phryd blasus o gawl cartref a bara ffres ac yna adloniant gwyh i ddilyn gan gôr o blant y pentref, detholiad o ganeuon ar y corn gan Prys a Shannon, ac yna dawns y gloesen gan Anest i orffen y rhan gyntaf.

Cafwyd bara brith cartref a phaned yn yr egwyl ac yn parti adrodd o blant y pentref, unawd corn gan Daniel ac i orffen y noson cafwyd alaw werin gan Cian.

Mwynhaodd pawb y noson yn fawr. Hoffai'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd ac a gefnogodd y noson.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Alex Parry ar ennill cystadleuaeth Ffotograffiaeth Bl. 5 a 6 yn Eisteddfod Cylch yr Urdd ar y thema 'Teimladau'. Daeth yn ail yn y gystadleuaeth yn yr Eisteddfod Sir.

SUL Y PASG. Cynhelir Cyfarfod Pregethu blyneddol Cefn-y-Waun yn Festri Ebeneser am 10.00 y bore a 5.00 yr hwyr ar Sul y Pasg, sef Ebrill



trwy ganu cân y mudiad yna croesawyd pawb gan Brenda, y Llywydd. Y gŵr gwadd oedd Dr Iwan Edgar o Abererch, ger Pwllheli. Cafwyd ganddo beth o'i hanes yn rhedeg ac fel yr oedd yn mynd ar hyd a lled Cymru a Lloegr i gystadlu ac yn cael llwyddiant yn gwneud hynny. Soniodd am y trocon trwstan a'r hwyl yr oedd yn ei gael. Mwynhawyd ei sgwrs a'i hiwmor naturiol.

Dathlwyd Gŵyl Ddewi yn y Clwb Golff yng Nghaernarfon.

Pawb wedi mwynhau y wledd ac wedi bwyta gormod fel arfer. Parti Merched y Boncathod o ardal Bethesda oedd yn diddanu a chafwyd canu gwerin digyfeiliant ganddynt. Diolchwyd i bawb gan Brenda.

Nos Wener, 19 Mawrth, oedd noson y gystadleuaeth Bowllo Deg yn Glasfryn, ger Pwllheli. Aeth dau dim o'r gangen yno ond ni fu llwyddiant y tro hwn, er i Dim 2 Deiniolen wneud yn dda iawn a Thim 1 wedi ennill y wobwr gysur!

Ar 23 Ebrill bydd rhai o'r aelodau yn ymweld â Sitwdio Sain yng Llandwrog.

LLONGYFARCHIADAU mawr i Llio Morris o Ddeganwy ar ei llwyddiant yn ennill Ysgoloriaeth o £3,000 o bunnau i ddilyn cwrs Gradd yn y Brifysgol yn Aberystwyth.

Cafodd tad a mam Llio eu dwyn i fyny yn Neiniolen, sef Keith yn Frondeg a Rhian yn 14 Rhes Marian. Ar hyn o bryd mae Llio yn mynychu Ysgol y Creuddyn yn Llandudno ac yn Brif Ddisgybl yno. Pob lwc iddi i'r dyfodol.



Y tîm pêl-droed

iawn i'w holl deulu, ffrindiau, cymdogion a Carers am yr holl gareidgrwydd a dderbyniwyd ganddi wrth ddathlu ei phen-blwydd yn 95 mlwydd oed yn ddiweddar.

TÎM PÊL-DRIOED DAN 7. Fe gafodd y tîm dan 7 brofiad arbennig yn ddiweddar o gael eu hyfforddi gan y cyn-chwaraewr rhyngwladol, ac un o hogia'r penra, Malcolm Allen.

Fe ddysgodd y plant am nifer o elfennau pwysig ar sut i chwarae pêl-droed ac roedd brwdfrydedd ac awch Malcolm am y gêm a sut i'w chwarae yn amlwg.

Hoffai'r clwb ddiolch i Malcolm am ei amser a'i gefnogaeth barhaol i blant y pentref. Gobeithio yn wir fod yna 'Malcolm' arall yn y garfan ac y bydd yn mynd ymlaen yn ôl ei draed yntau.

4ydd. Y cennad eleni fydd y Parch Eifion W. Williams, Llanfairfechan. Estynnir croeso cynnes i bawb.

LLONGYFARCHIADAU i Seindorf Arian Deiniolen ar eu llwyddiant mewn cystadleuaeth ddiweddar yn Abertawe. Dymuniadau gorau iddynt yn y gystadluacth fawr yn Harrogate.

CARNIFAL. Mae'n fwriad i gynnal Carnifal yn y pentref ddechrau'r haf. Mae pwyllgor gweithgar wedi ci sefydlu a'r paratodau yn mynd yn eu blaen yn dda gyda nifer o weithgareddau am gael eu trefnu yn y misoedd nesaf. Bydd y pwyllgor yn gwerthfawrogi pob cefnogaeth yn y misoedd i ddod.

MERCHED Y WAWR. Dechreuwyd cyfarfod mis Ebrill



Alex Parry'n dathlu

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

LLONGYFARCHIADAU i Dewi Griffiths, Llwyn Eithin ar gael ei ddyfarnu yn offerynnwr gorau yng nghystadlaethau Bandiau Pres Cymru yn Abertawe yn ddiweddar. Mae Dewi yn brif gornetydd gyda Band Tref Tredegar a bu i'r Band hefyd gyrraedd y safle cyntaf allan o 10. Ym mis Hydref bydd Band Tredegar yn cynrychioli Cymru ym Mhencampwriaeth Cenedlaethol y Bandiau Pres yn Neuadd Albert, Llundain.

CLWB BRO BETHEL. Dathlu Gŵyl Ddewi fu hanes yr aelodau y mis yma a hynny yng nghwmni holl blant yr Ysgol. Cafwyd cyngerdd o safon uchel iawn gan bob dosbarth gydag eitemau llafar, offerynnol, dawnsio a chanu.

Yn dilyn y cyngerdd roedd y plant hynaf wedi paratoi te blasus i bawb, ac fel gwerthfawrogiad o'r cyfan cyflwynwyd rhodd ariannol i'r Ysgol.

Wrth i'r Parchedig Marcus Wyn Robinson ddiolch i'r Pennaeth, athrawon a'r plant, llongyfarchwyd y Prifardd Selwyn a Myra Griffith ar ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol a dymunwyd pen-blwydd hapus i Maud Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf bawn Mawrth, Ebrill 6ed, yng nghwmni Ifan Glyn Jones, Penygroes.

MERCHED Y WAWR. Dathlwyd Gŵyl Ddewi eleni yng Nghlwb Golff Caernarfon a chawsom groeso twymgalon gan y Staff a gwledd wrth y byrddau bwyd. Y gŵr gwadd oedd y Prifardd Ifor ap Glyn, a bu i Mair Read, y Llywydd, estyn croeso arbennig iddo. Cafwyd noson hwyliog iawn yn ei gwmni wrth iddo gyflwyno nifer o'i gerddi, rhai yn ymwneud â Llundain, gan mai yno y cafodd ei ddwyn i fyny, ac eraill yn fwy lleol, gan ychwanegu hanesion difyr a'i symbylodd i'w hysgrifennu. Roedd pawb wedi mwynhau y noson yn fawr iawn a hawliodd sylw y gynulleidfa trwy'r amser. Diolchwyd yn ddiffuant iawn i'r siaradwr gan Joyce Roberts, a noddwyd y noson gan ACADEMI.

Cyn troi at y swper cydymdeimlodd Mair â Beti yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd yn ddiweddar a llongyfarchwyd Elan, wyres Gwyneth Jones, ar ennill y safle cyntaf yng nghystadleuaeth Dawnsio Disgo unigol yr Urdd - bydd Elan yn mynd ymlaen i gynrychioli Eryri yn Llannerch Aeron ym mis Mehefin.

Derbyniwyd enwau rhai i gynrychioli'r gangen ar Bwyllgor y Gofeb a Phwyllgor codi arian Eisteddfod yr Urdd 2012 a darllenwyd lythyr oddi wrth y Swyddog Datblygu newydd. Roedd yr Ysgol yn hapus iawn i fod yn rhan o'r Prosiect 'Coed Cadw' a bydd rhai o'r aelodau yn mynd draw i Glynllifon y tymor nesaf gyda rhywfaint o blant i ddewis coed i'w plannu ar dir yr Ysgol.

Enillydd 'dydd lwcus' y dyddiadur oedd Anita Owen ac enillwyr y raffl, yn rhoddedig gan y Pwyllgor oedd Margaret Druce, Lynnwen Morris, Margaret Williams, Elizabeth Evans, Dilys Perez, Ceinwen Roberts a Beti Owen. Y garddwr Russell Jones o Rhosgadfan fydd efo ni y tro nesaf. CYMDEITHAS LENYDDOL. Roedd nifer dda o aelodau yn bresennol y mis yma i wrando ar Geraint Lloyd Owen yn darlithio, a chafwyd croeso cynnes i'r cyfarfod gan y llywydd, Dr. J. Elwyn Hughes. Testun ei ddarlith oedd Robert Lloyd, neu fel yr adwaenir ef ar lafar gwlad, Llwyd o'r Bryn.

Cyflwynodd y siaradwr hanesion difyr dros ben ar sut y bu iddo gael ei drwytho yn yr iaith Gymraeg yn fachgen ifanc iawn yng nghwmni'r cyfaill wrth i Bob Lloyd ymweld â'r aelwyd yn y Sarnau. Dyn y 'Pethe' oedd Llwyd o'r Bryn ac yn sicr ddigon roedd yn enghraifft wych o un ag oedd â diddordeb yn niwylliant a thraddodiadau'r iaith Gymraeg ac fe ddaeth hyn yn amlwg iawn yng nghynnwys y ddarlith.

Cafwyd gair o ddiolch i Geraint Lloyd Owen ac hefyd i ferched y baned gan y Llywydd. Y swper pen-tymor fydd yn cloi gweithgareddau'r Gymdeithas am eleni a gofynnir i bawb sy'n dymuno dod roi gwybod i Nora Parry neu Sheila Roberts erbyn

Ebrill 14.

PWYLLGOR APÊL TUAG AT EISTEDDFOD YR URDD ERYRI 2012. Daeth criw ynghyd i gyfarfod Mrs Meriel Parry er mwyn codi pwyllgor i gychwyn codi arian at yr eisteddfod uchod. Mae gwahoddiad wedi ei anfon i bob sefydliad yn y pentref yn gofyn iddynt anfon un neu ddau/ddwy aelod i ychwanegu at y pwyllgor er mwyn cael cefnogaeth pawb i godi'r nod o £5,000. Bydd y pwyllgor nesaf yn cael ei gynnal yn Festri Capel Cysegr Nos Lun Ebrill 19 am 7 o'r gloch.

LLONGYFARCHIADAU. Dymuna ffrindiau a chymdogion Mrs Dorothy Williams, 'Bro Dirion', bob dymuniad da iddi ar ei phen-blwydd yn 90 y mis hwn.

DATHLU PRIODAS AUR. Dymuna Selwyn a Myra Griffith, Penisarwaun, ddiolch o galon i'w ffrindiau ym Methel a Phenisarwaun am y cardiau ar dymuniadau da a dderbyniwyd ar achlysur dathlu eu Priodas Aur yn ddiweddar.

Ar Sul y dathlu fe gafwyd braslun o hanes sefydlu yr Achos ym Methel, ddau gan mlynedd yn ôl, gan Selwyn. Ym

mis Hydref 1810 yr agorwyd y capel cyntaf yn y pentref, a dyna pryd y newidiwyd enw'r pentref o fod yn Rhos Chwillog, i Bethel.

Yn dilyn y sgwrs fe gafwyd parti i ddathlu hanner can mlynedd o fywyd priodasol Myra a Selwyn.

Dymuna'r ddau ddiolch i bawb am eu caredigrwydd PWYLLGOR EISTEDDFOD BETHEL. Mewn cyfarfod diweddar o'r Pwyllgor Eisteddfod, etholwyd swyddogion newydd ar gyfer y flwyddyn 2010. Deilwen Hughes (Llywydd); Rhian Hughes (Is-lywydd); Lowri Evans (Ysgrifennydd); Gwyneth Jones (Trysorydd); Edwina Morris (Cyddrysorydd); Siân Harries (Ysgrifenyddes Dawns) a Nora Jones (Swyddog Tariannau).

Diolchodd y Llywydd i bawb am eu gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf a bod llwyddiant yr Eisteddfod yn dyst i hynny. Mae trefniadau ar gyfer Eisteddfod Bethel 2010 eisoes ar y gweill gyda Tachwedd y 6ed wedi ei glustnodi fel diwrnod yr Eisteddfod. Dyddiad cyfarfod nesaf y Pwyllgor yw Mai 5ed 2010.



TAITH BEICIO NODDEDIG.

Apêl Haiti gan Hogia Bethel. Diolch yn fawr iawn i bawb yn y pentref a gefnogodd Rhodri,

Ifan a William drwy eu noddi i feicio o'r Felinheli i'r Groeslon ac yn ôl yn ddiweddar. Fe gododd yr hogia £192 tuag at Apêl Haiti. Da iawn chi, hogia.



www.fframia.com

FFRAMIA
Parc Padarn, Llanberis
(01286) 870922
www.fframia.com

Gwasanaeth Fframio Lluniau

Dewis eang o luniau yn yr Oriel ac ar y wefan
William Selwyn, Rob Piercy, Keith Bowen, Keith Andrew a mwy.

Cofiwch ddefnyddio

SWYDDFA POST BETHEL

(01248) 670261

Cewch groeso cynnes gan **CLED A SUSAN**

Cofiwch am ein gwasanaeth newid pres tramor, yswiriant, talu biliau, etc., yn ogystal â gwasanaethau arferol Swyddfa'r Post.

A hefyd Paypoint, Loteri a Pheiriant • Tynnu Pres (Cashback)

ORIAU AGOR

6 a.m.-7.30 p.m.

(Llun-Sadwrn)

6 a.m.-3 p.m. (Sul)

BYSUS RHIWLAS

Bysus bach a mawr ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS



Ar Ben Arall y Lein



Wel dyma ni, tymor arall wedi gwawrio, a do fe daflais bluen ar y diwrnod cyntaf, sef 3 Mawrth. Roedd mwy na'r arferol allan ond doedd neb yn aros yn hir gan ei bod mor ofnadwy o oer. Mentrais am rhyw ddwy awr, na ni chefais hyd yn oed plwc ac, yn ôl be dwi'n ddeall, doedd neb arall wedi bachu dim chwaith. Mae hyn, wrth gwrs, yn gwneud i rywun deimlo'n well.

Efallai hefyd fod y tanllwyth tân sydd yn y stela yn Crawia yn rhy hudolus ac yn ein tynnu oddi ar y glannau. Y diwrnod yma, i ddathlu tymor newydd, roeddwn wedi mynd â rhyw friwsionyn o eog wedi ei ffigu i roi blas ar y flwyddyn i'r rhai oedd wedi mentro allan. Ia cofiwch, eog o'r Seiont oedd o, un a fachais yn ystod Medi llynedd a'i gludo'n ofalus i'r siop ffigu sydd yn Stryd Yr Adeiladwr, Llandudno. Buasai, o bosib, yn syniad i gael rhyw fore coffi ac eog wedi ei gochi yno yn achlysurol. Y perygl yw, wrth gwrs, na fuasai digon i pawb gan ei fod mor flasus. Mi fydda i'n cymryd archebion at y 'Dolig!

Y diwrnod mawr i mi ydi'r 20 Mawrth, sef agoriad Llyn Padarn. Mi fydd y cwch allan, os nad ar y diwrnod agoriadol, yna ymhen rhyw deuddydd wedyn. Mae'n angenrheidiol rhoi tipyn o ymdrech i mewn ar ddechrau tymor oherwydd pwy a wyl beth

a ddaw yn ystod y flwyddyn fel mae'r tymheredd yn codi ar tebygolrwydd o'r algai yn dychwelyd. Na dydw i ddim am gyffwrdd â'r pennawd yma rwan gan, yn ôl pob golwg, y bydd digon i'w ddweud yn ystod y misoedd nesaf, ac mi fydd pawb wedi cael llwyr lond bol ar yr holl beth.

Daeth newyddion da i law fod grawn y torgochiaid sydd yn Deorfa Asiantaeth yr Amgylchedd yn Nolgellau wedi deori, ond nid oes penderfyniad eto wedi ei wneud i pa lyn yn y dalgylch y maent i'w rhyddhau. Y dealltwriaeth gwreiddiol oedd mai Llyn Du'r Arddu fyddai'r lleoliad ond, yn ôl pob golwg, nid yw'r Cyngor Cefn Gwlad yn rhyw hapus iawn â hyn ac mae Llyn Llydaw yn cael ei gysidro. Dydw i ddim yn rhyw sicr iawn beth yw cyfansoddiad Llydaw i gartrefu torgoch, fodd bynnag mae digon o ddyfnder yno, sef 190 troedfedd.

Mae Frank Ward yn ei lyfr *Llynnoedd Cymru* (1931) yn cyfeirio fod pysgod braf wedi bod yno amser maith yn ôl. Ac mae hyn yn hollol gredadwy gan fod cwch wedi ei ffurfio o un goeden wedi ei darganfod yno - 'cafn unpren' yw'r term priodol am gwch o'r fath, fel rwyf wedi cael ar ddeall. Roedd darganfyddiad fel hyn yn rhoi sail i'r gred fod rhai o'r oesoedd a fu wedi bod yn byw ger y llyn

Torgochiaid i Lyn Llydaw?

- doedd rhain ddim yn byw ble nad oedd pysgod ar gael.

Ond yn ôl at y presennol, fe laddwyd popeth yn y llyn gan y gweithfeydd copr a does dim llawer o sôn fod poblogaeth o frithyll wedi ailsefydlu yno. Yn ystod haf 2009 aeth cyfaill a minnau i Lydaw ar wyllnos i edrych a oedd naid nos yno, buasai felly yn werth mynd â'r enwair gyda ni y tro nesaf. Roedd yn noson odidog, gynnes heb chwa o wynt ac roedd y llyn mor llonydd â drych, a be oedd yn symud ymhobman ar wyneb y dŵr ond y rhwyfwr mawr. Buom yno nes ei bod wedi tywyllu yn gwylio'r pryfed mawr yma yn rhychu ar hyd y

wyneb ond dim un 'sgodyn yn codi i wneud pryd ohonynt. Dyna arwydd pendant - os ydi'r rhwyfwr o gwmpas bydd y brithyll yn gwledda, felly y penderfyniad oedd gadael yr enwair gartref y tro nesaf.

Os yn bosib, gwnewch ymdrech i gael golwg ar y lle fel mae'r haul yn diflannu, mae'n lle arbennig. Ond roedd fy nghydymaith yn sicr ei fod wedi gweld rhai bychan o faint yn mynd a dyfod yr ochr draw i'r llyn. Welais i neb, ond mae o yn credu'n gryf fod y Cyfryw Rai yn bodoli. Oes 'na rywun arall wedi eu gweld tybed!

Hwyl am y tro.

HUW PRICE HUGHES

Dau yn ennill ar y Tri

Dau o hogia'r fro ddaeth i'r brig yng nghystadleuaeth Triathlon Pwllheli a gynhaliwyd ddechrau fis Mawrth. Dyma'r tro cyntaf i'r gystadleuaeth gael ei chynnal yn ardal y dref, a daeth 71 o gystadlewyr yno i herio'r cwrs nofio, beicio a rhedeg.

Iwan Morton o Gwm y Glo oedd yn fuddugol mewn awr a phedwar munud. Yn ail roedd Owain Llŷr James o Ddeiniolen, bedwar munud yn

arafach, ond yntau hefyd yn ennill y wobwr gyntaf yn yr adran iau, am mai dim ond 16 oed oedd ar y diwrnod, ac yn cystadlu am y tro cyntaf yn erbyn rhai hŷn mewn Triathlon. Mae hyn yn dilyn llwyddiant tebyg ar ei ran yn Aberystwyth fis Chwefror.

Gan ddymuno pob llwyddiant i'r ddau mewn cystadlaethau cyffelyb yn ystod y flwyddyn.



Blodau Lieneke

**Blodau Priodas
Priodferch
Lleoliad • Byrddau**

Cae Rhydau Pontrug
Caernarfon LL55 2TN

Symudol 7510 511 631

Gwefan- <http://www.blomstervill.no>
E-bost- blomstervill@robin.no

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson) CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Carpedi, Llenni a Lloriau Pren

AUDI SEAT PORSCHE VOLKSWAGEN
DIESEL PETROL CHWISTRELLIAD ARBENIGWYR

MEWNFORIO YR ALMAEN UNION OLIVYNION CAM BELTS TRYDANOL SWEDEN

• Cymhwyster •
BOSCH
I roi gwasanaeth i'ch car heb effeithio ar y warant*
Dewis arall dibynadwy yn lle'r Prif Ddeliwr
* Gyda rhai amodau

Trwsio cerbydau a gwerthu partiâu sbâr
Lle da y gellwch ei fforddio

Stad Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD
(01286) 673559 www.a-v-w.co.uk

SKODA
BMW
PEUGEOT
FIAT
ABS
VOLVO
MOT
ATA
BOSCH
OFT
SAAB

CHWARAEON

MOR AGOS

Er y prisiau dychrynlyd a'r diffyg tocynnau daeth y miloedd Cymreig draw i Ddilyn eto eleni - yr un wynebaw, ddwy flynedd yn hyn. Cyrchfan criw ardal y chwareli yw Wynne's oddi ar brif stryd O'Connell. Yma mae'r hel straeon a'r canu.

Dewi Rees yn fy atgoffa 'i wneud siŵr fod ffwtbol Eco'r Wyddfa yn dod yn ôl i Llanbabs 'leni'. Yn sicr. Yna criw yn gofyn i mi, 'Ti 'di clwad beth wnath Llanbêr? Cefnogwyr Llanrug oedd rhai, ond yn sicr roedd yr ardal tu cefn i Lanbêr. Cefais neges bod yn dweud y sgôr - 0-2 - a dyna'r cyfan. Wedi dod adref ces wybod nad oedd y sgôr yn adlewyrchu rhediad y gêm o gwbl. Yn y gêm dyngedfennol aeth lwc yn erbyn yr hogia. Taro'r trawst a sawl arbediad gwyg gan golwr y gwrthwynebwyr. Yn amlwg nid oedd enw Llanber ar y cwpan eleni, chwedl yr hen goel. Nid oes neb yn cofio y rhai ddaeth yn ail meddai'r hen ddywediad. Ond, gall hogia Euron Davies fod yn hynod falch o'u perfformiadau ac, yn sicr, taniodd y rhediad wellhad sylweddol yn y gemau cynghrair. Rwy'n siŵr hefyd y bydd y mwyafrif o'r chwaraewyr yn aros ymlaen i gael ail gynnig y tymor nesaf. Rwy'n siŵr bydd y Cofis a'u polisi o hogia lleol yn cadw golwg ar ambell i chwaraewr yn nhimau bro'r Eco.

TRI CHYNNIG I GYMRO/ GYMRAES

Yng nghyswllt niferoedd disgyblion, ysgol 'fechan' yw Ysgol Brynrefail. Ond tybed a oes unrhyw Ysgol yng Nghymru gyda'r un brwdfrydedd a pharch mewn cynrychioli eu hyssgol a'u bro na disgyblion yr Ysgol arbennig hon. Eleni mae'r safonau ar y maes pêl-droed wedi codi eto. Bydd TRI o dimau yr Ysgol yn chwarae yn rownd derfynol Cwpan Cymru - timau bechgyn -16 ac -18 a thîm merched -13. Anhygoel.

Diddorol yw edrych drwy restr canlyniadau rhai o'r gemau. Yng Nghwpan Eryri y tîm -16 yn trechu Syr Huw 4-2 (ydy'r Cofis yn troi'n Ysgol rygbi?), Aberconwy 7-1 cyn colli i Emrys ap Iwan (Abergele) 5-3 yn y ffeinal.

Dan 18 yng nghwpan Eryri: curo Dyffryn Conwy (Llanrws) 6-2; Eirias (Bae Colwyn) 2-0;

yna Syr Huw i ffwrdd 4-0. Ysgolion llawer mwy eu niferoedd. Yna ymlaen i gwpan Cymru.

Dan 16 cafwyd chwip o gêm draw ym Mhrestatyn gyda Brynrefs yn ennill 4-2 wedi amser ychwanegol, i fod yn bencampwyr y gogledd. Yna curo Aberaeron 2-0 cyn ennill eu lle yn y ffeinal drwy guro Emrys ap Iwan, yr hen elynion, 6-3 draw yn Neganwy. Sgoriodd Jamie McDaid chwe gôl yn y tair gêm.

Yn naturiol roedd rhai o'r tîm -16 yn chwarae yn y tîm dan 18 hefyd. Curo Dinbych 4-1, yna Y Trallwng o 2-0 gyda McDaid yn sgorio'r goliau, cyn cipio lle yn y ffeinal drwy guro Ysgol Dinas Bran, Llangollen, diolch i gôl Gethin Green.

Yna tîm -13 y merched. Wedi dod yn bencampwyr lleol chwalwyd tîm y Rhyl 6-0, yna taith i Lanelli a pherfformiad ysgytwol wrth guro Ysgol Coedcae o 8-2. Tipyn o ganu ar y bws wedi'r canlyniad yma. Yna cyrraedd y ffeinal drwy guro Ysgol Penweddig, Aberystwyth o 4-2. Fel y bechgyn, mae ganddynt sgoriwr rheolaidd sef Lois Regan, a rwydodd 9 gôl (tair hatric) yn y gemau. A gafodd hi gadw'r peli!

Eisoes mae'r genethod yn gwybod mai Ysgol Cwm Tawe fydd eu gwrthwynebwyr yn y ffeinal draw ar faes pob tywydd TNS yng Nghroesoswallt ar Sadwrn, Fai 8ed. Llongyfarchiadau haeddiannol hefyd i'r hyfforddwr, Mr. Gareth Davies.

Mae'n siŵr bydd bysiau cefnogwyr yn mynd i'r tair gêm, ac rwy'n siŵr y bydd noddwyr hael unwaith eto. Edrychaf ymlaen i groniclo'r hanes o'r tair gêm. Gallai fod yn hanesyddol. Ni wn am unrhyw Ysgol fuasai wedi cipio tair cwpan genedlaethol yn yr un flwyddyn Ysgol.

Dymuniadau gorau iddynt.

BARN Y GWYBODUSION

Llwyddais i gael tocyn ar gyfer Croke Park ar fore'r gêm ac felly gwireddu breuddwyd o fod ym mhob un o brif feysydd rygbi Ewrop. Tipyn o brofiad yw clywed 80,000 yn morio y ddwy anthem Geltaidd yn yr ieithoedd brodorol. Serch hynny mae'n amlwg nad stadiwm rygbi yw Croke Park. Nid yw'r awyrgylch yn llifo gyda llif y gêm fel yn Ffordd Llandowne. Y mae'r dorf yn bcll o'r macs. Ar y ffordd o'r gêm rhoddodd

Dewi Llwyd feicroffon o dan fy nhrwyn ar gyfer ei raglen bore Sul. Beth oedd fy argraffiadau? Nad ydym yr un tîm heb ein chwaraewyr profiadol. Oes mae sêr yno, ond dim gwir ddyfnder yn y garfan. Dangoswyd hyn gyda dychweliad Philips, Jenkins a Ryan Jones yn erbyn yr Eidal. Hefyd mae'r timau eraill yn gyfarwydd â'n dull o chwarae erbyn hyn. Mae'n anoddach torri trwodd. Tybed oes a wnelo hyn â'r ffaith mai tîm hyfforddi Cymru oedd yr hyfforddwyr arbenigol gyda'r Llewod. Y mae'r cyfrinachau wedi eu derbyn a'u dadansoddi gan y gelyn.

Dioddefodd Cymru drwy anafiadau a ddaeth ar daith gorfforol y Llewod yn Ne Affrica. Mae rhai o'n prif chwaraewyr yn chwarae mwy o rygbi nag mewn gwledydd cyffelyb. Eto rhaid cael eu presenoldeb i ddenu'r torfeydd sy'n tipyn llai yng Nghymru nag yn y gwledydd eraill. Un ffaith ddiddorol yw bod tair Camp Lawn ddiwethaf Ffrainc

wedi dod yn y tymor sy'n dilyn taith y Llewod.

Yna cwestiwn olaf Dewi. Mewn iaith plaen, 'Ydy'r chwaraewyr wedi mynd yn rhy fawr i'w esgidiau?' Ydy'r heip yn ormodol? Ydy nhw yn coelio'r heip? A yw'r un balchder yno mewn cael cynrychioli'ch gwlad?'

A ydym yn dal i fyw yng nghysgod yr Oes Aur? Ai ond dwy flynedd yn ôl y cipiwyd y Gamp Lawn?

A yw cael hyfforddwr tramor yn gweddu i Gymru? Sut buasech chi yn ateb?

Oes mae o hyd ddigon o gwestiynau i'w gofyn ynglŷn â thîm rygbi Cymru. Yn anffodus, dim ond ar y cae y gellir eu hateb.

Un elfen ddiddorol oedd clywed y cwmni yn sôn am ein tîm ni - Bethesda, Caernarfon, Nant Conwy, Blaenau.....

Ymfalchio bod 600 yn bresennol yn gweld Caernarfon yn trechu Nant. Sylwch hefyd mai hen gadarnleoedd y bêl gron oedd rhain yn y gorffennol agos.

CROESO'R MYNYDDOEDD

Rhyfeddol oedd sylwi fod y 500 lle oedd ar gael ar gyfer Ras yr Wyddfa 2010 wedi eu llenwi o fewn dyddiau. Clod i hanes a threfniadaeth y ras. Mae'n siŵr bod nifer lleol yno eto eleni, yn benderfynol i wella ar amser llynedd. Mae'n siŵr y bydd gwell trefn ar y mynydd eleni, gwaith anodd oherwydd y niferoedd sy'n cerdded y mynydd ar benwythnos. Dymunaf yn dda i'r ras, gan ddiolch yn arbennig i waith ddiplino y trefnwyr sy'n gyfrifol am ddenu incwm mor dderbyniol i'r ardal. Nid yw eu gwaith caled yn haeddu cael ei sarnu gan ymddygiad cywilyddus nifer fach sy'n dod draw i gambyhafio ar y dydd. Gobeithiwn y gwelwn fwy o heddlu ac nid 'traffic wardens' yn Llanberis ar y diwrnod. Croeso, hwnna ydi o!

RASIO MYNYDD

Cynhaliwyd Ras Moel Wnion yn ystod y mis, ar gwrs newydd oedd yn gorfodi'r rhedwyr i ddringo Moel Wnion ddwywaith - y tro cyntaf o ochr Rachub, a'r eildro o Raeadr Aber. Roedd yr ail ddringfa yn boenus o araf! Prin oedd y rhedwyr lleol a fentrodd ar y ras eleni, ac aeth y safleoedd cyntaf i gyd i redwyr o Loegr. Am rhyw reswm annealladwy, roedd clwb Ambleside wedi dynodi'r ras hon fel rhan o'i phencampwriaeth clwb!

Er hynny, daeth Gwyn Williams, Hugh a Rory O'Donnell (Llanberis) a Dylan Jones (Deiniolen) yn y pymtheg cyntaf.

Ras yr Wyddfa

Daeth y newydd syfrdanol fod y ceisiadau ar gyfer ras eleni eisoes wedi eu llenwi, a hynny o fewn cwta bythefnos i'r ffurflenni cofrestru ddod ar gael. Mae hyn yn profi poblogrwydd y ras. Does ond gobeithio nad oes gormod o redwyr lleol wedi eu siomi, ac y ceir cynrychiolaeth dda i gystadlu ar yr Wyddfa yn ystod Gorffennaf.

RASUS NOS FAWRTH

Bydd y gyfres, sy'n cael ei noddi gan Great Arete, yn dechrau ar Ebrill 6ed o'r Fron, gyda chofrestru yn Ysgol Bron y Foel. Daeth dros gant i gystadlu yn y ras fer hon y llynedd, felly cofiwch gyrraedd yn ddigon cynnar i gofrestru cyn cychwyn y ras i gopa Moel Tryfan am 7.15.

Mae ail ras y gyfres yn cael ei chynnal ar y nos Fawrth ganlynol o Ddwygyfylchi, gan anelu am gopa'r Foel Lus uwchben Penmaenmawr.

Yna, ar yr 20fed o Ebrill, yn ôl unwaith eto i Ysgol Bron y Foel ar gyfer ras Mynydd Mawr, a diweddu'r mis gyda ras Pen Dinas o Nant Peris.

Bydd rasys i blant dan 8 oed, dan 10 oed a dan 12 oed, a ieuencid dan 16 oed yn cael eu cynnal ynghlwm â phob un o'r rhain

Ceir gorffwys wedyn tan yr ail nos Fawrth ym mis Mai. Mwy am y gyfres, a chanlyniadau lleol yn y rhifyn nesaf.